Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Adroddiad Sbotolau:

# 'Cymerwch y peth o ddifri': Profiadau Plant o Hiliaeth mewn Ysgolion Uwchradd



www.comisiynyddplant.cymru




# Diolchiadau

**Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn trwy waith caled tîm prosiect staff Comisiynydd Plant Cymru – Gerli, Sab, Lewis, Chloe, Teleri, Sophie a Rhiannon, sydd wedi llunio a chyflwyno gwahanol elfennau'r adroddiad hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.**

Rwy'n eithriadol o ddiolchgar i'r holl blant a phobl ifanc hynny, yr athrawon, y penaethiaid a'r gweithwyr proffesiynol a rannodd yn hael o'u barn, eu dealltwriaeth a'u profiadau gyda ni er mwyn llywio'r adroddiad.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y cyngor treiddgar, cynorthwyol a gafwyd gan Chantele Haughton o DARPL a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, a chan yr Athro Charlotte Williams o Brifysgol Bangor ar wahanol adegau yn y prosiect, ac yn ystod cyfnod drafftio'r adroddiad.

Hoffwn gydnabod hefyd fewnbwn a chyngor aelodau grŵp llywio y prosiect Pobl Ifanc, un o is-grwpiau fy Mhanel Ymgynghorol Pobl Ifanc, wrth lywio'r prosiect.


**Comisiynydd Plant Cymru**
Children's Commissioner for Wales

# Cynnwys


01 **RHAGAIR** gan y Comisiynydd Plant Rocio Cifuentes .................... 04

02 **CEFNDIR** ........................................ 05

03 **POLISI A CHYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL** ..................... 07

04 **Y SYLFAEN O DYSTIOLAETH SYDD EISOES YN BODOLI** ......... 10

05 **METHODOLEG** ............................ 14

06 **BETH GLYWSON NI GAN BLANT A PHOBL IFANC** ............. 16

Profiadau o Hiliaeth mewn Ysgolion ........................................ 17

Rhwystrau i adrodd am hiliaeth ..... 21

Awgrymiadau gan ddysgwyr ynghylch delio â hiliaeth ................. 23

Gwell cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n profi hiliaeth .......................... 26

Dysgu ehangach am hiliaeth ac amrywiaeth ........................... 28

07 **BETH GLYWSON NI GAN ARWEINWYR YSGOLION AC ATHRAWON** ............................... 32

08 **BETH GLYWSON NI GAN OEDOLION SY'N RHANDDEILIAID ALLWEDDOL** ... 37

09 **CASGLIADAU** .............................. 40

Argymhellion ............................... 41

Atodiadau ..................................... 44

Ôlnodiadau .................................. 47

# 01 RHAGAIR

gan y Comisiynydd Plant Rocio Cifuentes

**Mae gan blant hawl i dderbyn addysg (Erthygl 28, CCUHP) ac mae gan bob plentyn yr hawliau hyn, beth bynnag yw eu hil, eu lliw, eu rhyw, eu hiaith, eu crefydd, eu barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol, ethnig neu gymdeithasol, eiddo, anabledd, genedigaeth neu statws arall (Erthygl 2, CCUHP).**

Mae'r profiadau rydyn ni wedi'u clywed wrth lunio'r adroddiad yma yn awgrymu, gwaetha'r modd, bod llawer iawn o blant a phobl ifanc yn profi hiliaeth a digwyddiadau hiliol yn yr ysgol uwchradd, ac ychydig sydd â hyder yn y dull o ddelio â hyn. Trafododd athrawon a rhanddeiliaid brofiadau tebyg, gan adleisio materion diffyg hyder a diffyg eglurder ynghylch sut mae ymateb i'r digwyddiadau hyn.

Mae'r themâu hyn yn gyfarwydd ac yn codi droeon, gan adleisio adroddiadau rwyf finnau wedi'u hysgrifennu a chyfrannu atynt mewn rolau blaenorol yn gweithio gyda phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig yn ystod y ddau ddegawd diwethaf.

Er gwaethaf gwelliannau i'w croesawu ynghylch amrywiaeth cynnwys yr hyn mae disgyblion yn ei ddysgu[1], ymddengys bod llawer o le i wella o hyd ym mhrofiadau dysgwyr mewn ysgolion, ac mae tystiolaeth gynyddol bod hiliaeth a bwlio hiliol ar led ac yn digwydd yn fynych ledled Cymru[2]. Mae bellach yn hen bryd i ni weithredu ynghylch y dystiolaeth gynyddol hon.

Ar gyfer y gwaith ymchwil yma, bu fy nhîm a minnau yn siarad â 170 o blant a phobl ifanc o amrywiaeth eang o gefndiroedd lleiafrifol, o ardaloedd awdurdod lleol ar draws Cymru. Buon ni hefyd yn casglu barn a phrofiadau gan athrawon, penaethiaid ac addysgwyr eraill o gyfanswm o 17 ysgol, yn ogystal â chlywed gan amrywiaeth o arbenigwyr a rhanddeiliaid yn y maes. Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb a fu'n rhannu eu barn ac yn rhoi mor hael o'u hamser.



Mae Cymru wedi cymryd camau mawr ymlaen yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran ymrwymiad i Gymru Wrth-hiliol, i gwricwlwm ehangach a mwy amrywiol, ac i Hawliau Plant. Ond mae'r hyn glywson ni yn ystod yr ymchwil yma yn dangos bod plant yn dal i brofi hiliaeth a digwyddiadau hiliol yn rheolaidd, ac felly mae rhagor i'w wneud i sicrhau bod ysgolion yn gallu ymdrin â hiliaeth a digwyddiadau hiliol, eu lleihau ac ymateb iddynt yn effeithiol.

Mae'r argymhellion rydyn ni'n eu gwneud yn rhai rydyn ni'n gobeithio fydd yn cael eu hystyried a'u gweithredu gan bob ysgol yng Nghymru, beth bynnag yw eu lefelau amrywiaeth, er mwyn sicrhau bod yr holl ddysgwyr sydd mewn ysgolion yng Nghymru yn gallu teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynnwys, eu parchu, a heb ddioddef gwahaniaethu yn eu herbyn, beth bynnag yw eu cefndir.

**Rocio Cifuentes** MBE
Comisiynydd Plant Cymru
Hydref 2023

# 02 CEFNDIR

**Rôl Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau holl blant Cymru. Mae plant yng Nghymru yn grŵp ethnig sy'n mynd yn fwyfwy amrywiol, gyda bron 13% (dros 50,000) o'r holl ddisgyblion ysgol yn dod o 'Unrhyw gefndir ethnig arall' yn hytrach na 'Gwyn Prydeinig'[3].**

Mae cryn amrywiadau rhanbarthol, o 34.4% yn ysgolion Caerdydd i 4.1% yn ysgolion Ynys Môn. Er gwaethaf yr amrywiadau rhanbarthol hyn, mae amrywiaeth ethnig i'w weld ym mhoblogaethau dysgwyr ar draws Cymru. Mae hyn yn cynnwys plant o gefndiroedd amrywiol sy'n cynnwys tras Affricanaidd, Affro-Garibïaidd, Asiaidd, Americanaidd (Canolbarth a De), a thras Ewropeaidd, y mwyafrif ohonynt wedi'u geni yng Nghymru.

Mae'r swyddfa yn flaenorol wedi ymgymryd â pheth gwaith sy'n canolbwyntio ar wahanol faterion sy'n effeithio ar blant o leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys adroddiad ar effaith pandemig Covid ar blant o gefndir ethnig lleiafrifol[4], ac adnodd ar gyfer Taclo Islamoffobia[5]. Ymhellach, nodwyd mater bwlio, gan gynnwys bwlio ar sail hunaniaeth, fel blaenoriaeth gan bob Comisiynydd ers i'r rôl gael ei sefydlu yn 2001. Daeth i'r amlwg yn gryf yn ein harolwg cenedlaethol diweddaraf, Gobeithion i Gymru[6], ac yn dilyn hynny, mae hiliaeth a bwlio ar sail hunaniaeth yn flaenoriaeth yn y strategaeth 3 blynedd gyfredol[7]. Fodd bynnag, nid yw'r swyddfa'n flaenorol wedi canolbwyntio'n benodol ar hiliaeth, digwyddiadau hiliol, neu fwlio hiliol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn arbennig ers 2020 a marwolaeth George Floyd, bu mwy o ymrwymiadau ac ymdrechion ar lefel genedlaethol i daclo hiliaeth a hybu dealltwriaeth o amrywiaeth. Yng Nghymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Wrth-hiliol'[8], yn 2022, cynllun uchelgeisiol, cynhwysfawr a gynhyrchwyd ar y cyd ag unigolion a sefydliadau oedd â phrofiad bywyd o hiliaeth. Mae gan y Cynllun Gweithredu hwn adran benodol ar addysg, gyda nifer fawr o ymrwymiadau.

Yn 2023, daeth y Cwricwlwm newydd i Gymru i rym yng Nghymru, ac un o'i bedwar diben yw 'creu dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd'. I gefnogi hyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith arloesol dan arweiniad yr Athro Charlotte Williams, a arweiniodd at Gymru'n dod yn wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i wneud addysgu hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn orfodol yn y cwricwlwm ysgol[9]. Elfen allweddol a ddeilliodd o'r gwaith hwnnw oedd comisiynu dysgu proffesiynol i addysgwyr ar hiliaeth a gwrth-hiliaeth trwy'r prosiect Dysgu Proffeisynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL).

Fodd bynnag, er gwaethaf y camau pwysig hyn at wella amrywiaeth yr hyn mae plant yn dysgu mewn ysgolion, a'r hyn mae athrawon yn ei ddysgu am hiliaeth, mae'r dystiolaeth yn parhau i gynyddu ynghylch profiadau anghyfartal ym myd addysg a phrofiadau parhaus o hiliaeth a digwyddiadau hiliol ymhlith dysgwyr o grwpiau ethnig amrywiol.

Yn y cyd-destun hwn, nid ein nod oedd ailddiffinio problem hiliaeth mewn ysgolion, ond yn hytrach fynd ati i helpu i ganfod atebion posibl, a thrwy glywed barn pobl ifanc ac addysgwyr, awgrymu sut gallai ysgolion gael eu cefnogi'n fwy effeithiol i ymateb i hiliaeth a digwyddiadau hiliol a'u taclo.

Mae ein prosiect yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau hiliol fel y mynegiant mwyaf eglur o hiliaeth gan unigolion a sefydliadau, ond ar sail yr hyn glywson ni gan y rhai y buon ni'n siarad â nhw, awgrymir mai dim ond 'brig gweladwy y mynydd iâ' yw'r digwyddiadau hyn, ac mai o dan hynny y ceir yr agweddau, yr ymddygiad, y ddealltwriaeth a'r ffyrdd o weithio gan staff a disgyblion sy'n ffurfio diwylliant, ethos a dull gweithredu ysgol. Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod angen i ysgolion edrych y tu hwnt i ddull adweithiol yn unig o ymateb i ddigwyddiadau hiliol, at ddull mwy rhagweithiol sy'n gwreiddio gwrth-hiliaeth fel dull gweithredu ysgol gyfan.

Mae ein prosiect yn canolbwyntio ar ysgolion uwchradd yng Nghymru yn unig, yn bennaf oherwydd y cyfyngiadau ar ein capasiti ein hunain fel tîm ymchwil.

# Diffiniadau

**O'r cychwyn, mae'n bwysig diffinio 'hiliaeth', a bod modd i unigolion a sefydliadau fod yn hiliol.**

Mae **hiliaeth sefydliadol**
yn cyfeirio at y prosesau, yr agweddau a'r dulliau o ymddwyn strwythurol a sefydliadol ehangach, sydd wedi'u gwreiddio mewn hanes, ac sydd yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o gefndir ethnig lleiafrifol ac yn eu rhoi o dan anfantais[10].

Ystyr **hiliaeth yr unigolyn**
yw agweddau ac ymddygiad unigolyn, a all fod wedi'u seilio ar stereoteipiau hiliol a syniadau o fod yn israddol neu'n uwchraddol. Yn syml, hiliaeth gan unigolion yw trin rhywun yn wahanol neu ystyried eu bod yn israddol oherwydd lliw eu croen, eu crefydd, eu cenedl neu eu diwylliant.

**Digwyddiadau hiliol**
felly, yw ymddygiad (gweithredoedd neu eiriau) y mae modd eu gweld fel mynegiant o hiliaeth waelodol unigolion a hiliaeth sefydliadol. Digwyddiad hiliol, yn unol â diffiniad Macpherson, yw 'unrhyw ddigwyddiad a ganfyddir fel un hiliol, gan y dioddefydd neu gan unrhyw berson arall', fel y mynegwyd yn ystod Ymchwiliad Stephen Lawrence[11].

Fe fuon ni'n archwilio sut roedd y plant, y bobl ifanc a'r oedolion y buon ni'n siarad â nhw fel rhan o'r prosiect yma yn deall hiliaeth a digwyddiadau hiliol, er mwyn llywio'n diffiniad ein hunain, ac yn ymarferol, roedd y rhan fwyaf yn defnyddio 'hiliaeth' i olygu digwyddiadau hiliol – h.y. wrth drafod ymddygiad neu eiriau a ddefnyddiwyd. Fodd bynnag, rydyn ni'n awgrymu ei bod hi'n bryd i addysgwyr a disgyblion yng Nghymru gytuno ar ddiffiniad ymarferol newydd o hiliaeth.

# 03 POLISI A CHYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL

**Gall ysgolion ymdrin â hiliaeth a digwyddiadau hiliol mewn nifer o wahanol ffyrdd ar hyn o bryd, gan gynnwys fel math o fwlio, neu fel digwyddiad atgasedd neu drosedd atgasedd.**

Fel sefydliad hawliau plant, Mae Comisiynydd Plant Cymru yn gwrthwynebu troseddoli plant a phobl ifanc yn ddiangen, a hoffen ni ddadlau o blaid defnyddio dulliau cyfiawnder adferol lle bynnag y bo modd, yn hytrach na gwneud plant a phobl ifanc yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod angen gwneud gwaith pellach i sicrhau eglurder i ysgolion, ac i ddisgyblion a'u teuluoedd ynghylch y diffiniad o hiliaeth a digwyddiadau hiliol, a'r ymateb gallan nhw ei ddisgwyl i ddigwyddiadau o'r fath.

## Canllawiau Gwrthfwlio

Cyhoeddwyd y canllawiau gwrthfwlio statudol cyfredol 'Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau statudol'[12] gan Lywodraeth Cymru yn 2019. Maen nhw'n ymdrin â bwlio cyffredinol a bwlio cysylltiedig â rhagfarn, gan gynnwys hiliaeth, ac yn ategu mor bwysig yw hi bod ysgolion yn trin bwlio ynghylch hil, crefydd a diwylliant mewn modd sy'n cyfateb i fathau eraill o fwlio. Mae'r canllawiau'n disgrifio bwlio cysylltiedig â hil, diwylliant a chrefydd fel 'ystod o ymddygiad niweidiol, yn gorfforol ac yn seicolegol, sy'n gwneud i berson deimlo nad oes croeso iddyn nhw, eu bod wedi'u gwthio i'r cyrion, wedi'u heithrio, neu'n ddi-rym oherwydd eu lliw, eu hethnigrwydd, eu diwylliant, eu ffydd (gan gynnwys diffyg ffydd), eu tarddiad cenedlaethol neu eu statws cenedlaethol'.

O dan y canllawiau hyn, mae rhwymedigaeth ar ysgolion yng Nghymru i roi sylw i bob math ar hiliaeth a bwlio hiliol a'u herio. Mae'r canllawiau'n cysylltu bwlio â hawliau dynol plant, fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gan gyfeirio at Erthygl 19: yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed, ac Erthygl 28: yr hawl i gael addysg. Mae disgwyl i ysgolion gofnodi achosion o fwlio hiliol (a bwlio o unrhyw fath arall), a dylid eu cofnodi ar wahân mewn categorïau penodol, gan nodi'r sail ar gyfer y bwlio hiliol, e.e. treftadaeth grefyddol, ethnigrwydd, hil neu statws ffoadur.

Mae canllawiau statudol Hawliau, Parch, Cydraddoldeb yn gosod rhwymedigaeth ar ysgolion i ddatblygu a gweithredu strategaeth gwrthfwlio er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i herio ac atal bwlio, gan gynnwys hiliaeth a bwlio hiliol. Mae disgwyl i ysgolion weithio gyda dysgwyr, eu teuluoedd, a chymunedau i sicrhau bod y gefnogaeth a'r canlyniadau priodol yn cael eu darparu i'r plentyn neu'r person ifanc sy'n cael eu bwlio, trwy ddweud:

*'Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod gan ysgolion fecanweithiau ar gyfer adrodd a chofnodi bwlio sy'n cael eu cyfleu'n glir i holl gymuned yr ysgol...*

*Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gofnodi pob achos o fwlio, gan amlinellu'r mathau penodol o fwlio, gan gynnwys bwlio ynghylch y nodweddion gwarchodedig. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fonitro prosesau'n rheolaidd. Bydd hynny'n galluogi ysgolion i addasu eu polisïau bwlio i ymateb i dueddiadau penodol a materion sy'n dod i'r amlwg mewn modd cyflym ac effeithiol.'*

## Digwyddiadau/Troseddau Atgasedd

Mae modd categoreiddio rhai digwyddiadau hiliol hefyd fel digwyddiad neu drosedd atgasedd. Mae tudalen Llywodraeth Cymru 'Mae Casineb yn Brifo Cymru[13] yn cynnig y diffiniad canlynol:

*'Trosedd gasineb yw unrhyw ymddygiad troseddol sy'n ymddangos fel petai wedi'i ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn, neu sy'n cynnwys geiriau neu ymddygiad sy'n dangos gelyniaeth, yn seiliedig ar nodweddion ymddangosiadol person, er enghraifft, ei: hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth trawsryweddol, Anabledd.*

*Mae trosedd gasineb yn gallu cynnwys difrïo geiriol, brawychu, bygwth, aflonyddu, ymosod a bwlio, yn ogystal â difrodi eiddo. Gall yr unigolyn sy'n cyflawni'r drosedd fod yn ddieithr i chi, neu yn ffrind.*

*Mae troseddau casineb yn gallu digwydd wyneb yn wyneb neu ar-lein.'*

Mae llai o eglurder ynghylch sut dylai ysgolion ddelio â digwyddiadau atgasedd hiliol neu droseddau casineb mewn ysgolion. Canfu un adroddiad a gyhoeddwyd yn 2020 gan Cymorth i Ddioddefwyr, ac a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, fod plant yn dod yn ddioddefwyr troseddau atgasedd mewn ysgolion "yn frawychus o gyflym", ac nad oedd ysgolion bob amser yn gwahaniaethu'n briodol rhwng bwlio a digwyddiadau atgasedd[14 15].

## Y Fframwaith Cyfreithiol

Mae'r fframwaith cyfreithiol ynghylch aflonyddu cysylltiedig â rhagfarn yng Nghymru yn cynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Cydraddoldeb, yn ogystal â dyletswyddau penodol ar weinidogion Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer eu swyddogaethau. Mae dyletswydd hefyd yn Neddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 i ysgolion hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP. Mae'r canllawiau statudol, 'Hawliau, Parch, Cydraddoleb' yn gofyn bod gan ysgolion fecanweithiau ar gyfer adrodd a chofnodi bwlio sy'n cael eu cyfleu'n glir i'r ysgol gyfan.

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) mae rhwymedigaeth ar ysgolion i sicrhau bod camau priodol ac effeithiol yn cael eu cymryd i ddileu neu leiafu anfanteision a wynebir gan ddisgyblion oherwydd bod ganddyn nhw nodweddion gwarchodedig.[16]

## Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Yn 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (y Cynllun), sef strategaeth gynhwysfawr i roi sylw i gydraddoldeb hil ar draws y llywodraeth, gan gynnwys ym maes addysg. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod profiadau o hiliaeth yn gyffredin i lawer o blant a phobl ifanc ar draws pob lefel ym myd addysg, bod plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu hunain yn teimlo eu bod heb lais ac nad yw eu profiadau'n cael eu cymryd o ddifri, sy'n arwain at ddiffyg adrodd a chofnodi digwyddiadau hiliol mewn ysgolion a cholegau. Mae'r Cynllun yn amlygu bod systemau adrodd presennol yn anghyson, a bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd heb ddata am fwlio ac aflonyddu hiliol mewn lleoliadau addysg, sy'n golygu nad oes darlun clir o raddfa'r broblem na'r rhwystrau mae plant a phobl ifanc sy'n profi hiliaeth yn eu hwynebu.

Er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn, mae'r Cynllun yn cyflwyno cyfres o ymrwymiadau, gan gynnwys ystyried system Cymru gyfan o adrodd a chasglu data, a fydd yn casglu

data yn benodol mewn perthynas â bwlio ac aflonyddu, gan gynnwys ar sail nodweddion gwarchodedig; a bod ysgolion a cholegau'n cryfhau eu prosesau adrodd, cofnodi a monitro. Mae'r cynllun hefyd yn nodi bod disgwyl i ysgolion ddatblygu dulliau gweithredu gwrth-hiliol a chyhoeddi gwybodaeth am eu cynnydd ac effaith hynny ar ddysgwyr a staff, yn ogystal ag ymgysylltu â sefydliadau addysg eraill i rannu arfer da, a datblygu dulliau gweithredu ac adnoddau a rennir.

**"Mae hiliaeth yn dal yn realiti i lawer o'n dysgwyr a'n haddysgwyr. Bydd llawer yn profi hiliaeth agored, uniongyrchol, trwy fwlio ac aflonyddu hiliol yn ein lleoliadau addysg, yn aml gan eu cyfoedion. Bydd pawb ohonynt yn profi mathau mwy cynnil o hiliaeth trwy realiti pob dydd ein cymdeithas; y systemau, y strwythurau a'r prosesau sy'n cynhyrchu canlyniadau cwbl wahanol i grwpiau ethnig lleiafrifol.**

**Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried system Cymru gyfan o adrodd a chasglu data, a fydd yn casglu data yn benodol ynghylch bwlio ac aflonyddu, gan gynnwys ar sail nodweddion gwarchodedig. Bydd y system newydd hon yn ein helpu i bontio'r bwlch data yma, a sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau bywyd dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol."**

Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru, 2022

## Y Cwricwlwm Newydd i Gymru ac Amrywiaeth yn y Cwricwlwm

Mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru[17] yn galw am ddinasyddiaeth egwyddorol, fyd-eang a chyfleoedd eraill ar draws Pedwar Diben y Cwricwlwm. Daeth hyn yn orfodol i Flynyddoedd 7 ac 8 o fis Medi 2023.

Sefydlwyd gweithgor gan Lywodraeth Cymru, dan arweiniad yr Athro Charlotte Williams, i archwilio amrywiaeth yn y cwricwlwm. Cyhoeddwyd eu hadroddiad terfynol, 'Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, Cyfraniadau a Chynefin yng Ngweithgor y Cwricwlwm Newydd[18]' yn 2021. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ei 51 argymhelliad yn llawn, a dyna arweiniodd at Lywodraeth Cymru yn gwneud addysgu hanes pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn orfodol fel rhan o'r cwricwlwm newydd.

Sefydlwyd y prosiect Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL[19]) mewn ymateb i argymhellion dysgu proffesiynol gweithgor 'Cynefin'. Ariannir DARPL gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei arwain gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd, gan ddefnyddio dull gweithredu cymuned o ymarfer, gydag ystod eang o bartneriaid sy'n cynnwys Rhwydwaith BAMEed Cymru. Nod DARPL yw darparu model cenedlaethol o ddysgu proffesiynol ar gyfer y rhai sy'n gweithio ar draws pob haen ym myd addysg, gofal plant a chwarae, er mwyn datblygu dealltwriaeth o ymarfer gwrth-hiliol ac arweinyddiaeth a'u meithrin.

# 04 Y SYLFAEN O DYSTIOLAETH SYDD EISOES YN BODOLI

**Mae ymchwil allweddol a gynhyrchwyd ar y pwnc yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dangos yn glir bod profiad o hiliaeth yn gyffredin i bobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sy'n byw yng Nghymru.**

Ceir tystiolaeth o hyn ar ffurf adroddiadau ymchwil olynol a seiliwyd ar farn plant a phobl ifanc ac athrawon yng Nghymru, a'r profiadau a adroddwyd ganddynt.

## Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth (SRTRC) wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau yn amlygu hyd a lled hiliaeth mewn ysgolion yng Nghymru.

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2020[20], cynhaliwyd arolwg o fwy na 1000 o addysgwyr, yn ogystal â 428 o ddisgyblion o 7 ysgol. Ymhlith yr addysgwyr yn yr arolwg, dywedodd 25% eu bod wedi gweld digwyddiad hiliol, wedi ymateb i un, neu bod disgybl wedi adrodd am un yn ystod y 12 mis diwethaf. Ar ben hynny, dywedodd 61.5% o'r 1058 o ymatebwyr fod disgybl yn eu hysgol bresennol wedi mynegi camganfyddiadau neu stereoteipiau, a bod y mwyafrif o'r rheiny yn troi o gwmpas lliw croen, crefydd a chenedl. Ymhlith y disgyblion, dywedodd 77% o 428 o ddisgyblion fod hiliaeth yn bodoli yn eu hysgol. Roedd 30% o'r rheiny hefyd yn cyfaddef eu bod wedi defnyddio iaith hiliol yn erbyn disgybl arall.

Roedd yr ymchwil yma'n adeiladu ar arolwg cynharach a gynhaliwyd yn 2016[21], oedd yn cynnwys bron 600 o ddisgyblion ysgol cynradd ac uwchradd, a 560 o athrawon ac athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru. Canfu'r ymchwil yma fod dau o bob pum disgybl ym mhen uchaf Cyfnod Allweddol 2 wedi dioddef gwahaniaethu hiliol yn eu herbyn, a bod un o bob pum disgybl ym mhen uchaf Cyfnod Allweddol 2 wedi defnyddio iaith hiliol tuag at un o'u cyfoedion. Canfuwyd ymhellach fod mwyafrif o'r athrawon (69%) ddim yn teimlo eu bod wedi'u hyfforddi'n dda nac yn hyderus wrth gael hyd i ffurflenni digwyddiadau hiliol a'u llenwi, ac nad yw mwyafrif o'r athrawon (70%) yn teimlo eu bod wedi'u hyfforddi'n dda nac yn hyderus wrth fynd ar ôl digwyddiadau hiliol gyda staff uwch neu rieni.

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn rhoi cyd-destun ehangach i'w hadroddiadau trwy ddweud "Mae hyn yn bwydo i'r darlun cenedlaethol lle mae Estyn wedi mynegi pryderon ynghylch tangofnodi digwyddiadau hiliol mewn ysgolion a diffyg ymateb iddynt-[1]; mae'r adroddiadau am droseddau atgasedd wedi codi'n sylweddol [2]; bu rhybuddion ynghylch cynnydd yn yr Asgell Dde Eithafol [3] ac mae llawer o adroddiadau wedi canfod agweddau negyddol at Fwslimiaid a Mwslimiaid canfyddedig yn y Deyrnas Unedig [4]."

## Cynghrair Hil Cymru

Yn 2021 cyhoeddodd Cynghrair Hil Cymru adroddiad ymchwil dan arweiniad cymheiriaid, 'Show Us You Care', oedd yn amlygu profiad pobl ifanc o hiliaeth mewn gwahanol gyfnodau yn y system addysg, ac effeithiau hirdymor hynny, a all fod yn drawmatig[22]. Soniodd yr adroddiad am brofiadau nodweddiadol mewn ysgolion uwchradd fel a ganlyn:

**"Yng nghyd-destunau addysgol ysgolion uwchradd, ymddengys bod hiliaeth yn cael ei fynegi mewn modd llawer mwy cymhleth. Wrth i bobl ifanc bontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, maen nhw'n profi llawer o newidiadau o ran cwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau newydd, ac yn achos rhai pobl ifanc gwyn, wynebu amrywiaeth hil am y tro cyntaf o bosib. Fel pobl ifanc a ddiffiniwyd yn ôl eu hil... buon nhw'n rhannu profiadau o hiliaeth uniongyrchol, anuniongyrchol (yn bennaf trwy ficro-ymosodedd), yn ogystal â sefydliadau trwy bolisïau'r ysgol.**

**Mewn modd tebyg i'r ysgol gynradd, profodd llawer o bobl ifanc gael eu galw'n enwau seiliedig ar nodweddion hil neu grefydd. Fodd bynnag, yn y cyfnod [ysgol uwchradd] yma, eglurodd y bobl ifanc fod galw enwau yn fwriadol, ac weithiau'n faleisus, yn wahanol i'r hyn a brofwyd ar lefel ysgol gynradd. Eglurodd pobl ifanc y bydden nhw'n aml yn wynebu cael eu galw'n enwau fel y gair 'P', y gair 'N', neu 'curry munchers' mewn perthynas â'u hil"**

Show us you care, Cynghrair Hil Cymru, 2021

## EYST

Yn 2018, cyhoeddwyd papur ar y cyd[23] gan y Tîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid (EYST), Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Cyngor Hil Cymru a Tros Gynnal Plant (TGP Cymru), gyda'r nod o roi trosolwg o'r dystiolaeth ynghylch hiliaeth mewn ysgolion. Trwy gyfuno adroddiadau a thystiolaeth gan y pedwar sefydliad, mae'r adroddiad yn cyflwyno profiad eang ac 'wedi'i normaleiddio' o hiliaeth ymhlith pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig mewn ysgolion, pwysigrwydd yr ymateb gan athrawon ac ysgolion, oedd at ei gilydd 'yn ddifrifol ddiffygiol', a rôl allweddol y cwricwlwm o ran ffurfio barn pobl ifanc ynghylch hil ac amrywiaeth.

**'Mae lleisiau pobl ifanc BAME, sy'n cael y lle blaenaf yn y ddogfen hon, yn mynegi'n gwbl eglur bod profiad cyfran sylweddol o'r nifer cynyddol o ddisgyblion BAME yng Nghymru o hiliaeth yn un pob dydd, sydd bron wedi'i normaleiddio, ac yn cael effaith barhaol, niweidiol. Mae'r lleisiau hyn hefyd yn amlygu'n glir rôl allweddol ysgolion ac athrawon yn eu hymateb i hiliaeth, a chafwyd bod yr ymateb hwnnw'n ddifrifol ddiffygiol ar y cyfan, a bod hynny'n cael ei waethygu oherwydd diffyg athrawon BAME, yn arbennig ar lefelau uwch yng Nghymru. Amlygwyd hefyd sut mae cwricwlwm 'wedi'i wyngalchu' yn llurgunio ymdeimlad disgyblion BAME o'u gwerth eu hunain, yn ogystal â'u dealltwriaeth hwythau a'u cyfoedion gwyn o'u lle a'u gwerth yn y byd.'**

Profiadau o Hiliaeth a Hil mewn Ysgolion yng Nghymru, EYST et al, 2018.

## ESTYN

Yn eu hadroddiad yn 2019, 'Iach a Hapus', amlygodd Estyn fod anghysondeb yn y negeseuon a roddir a phrofiadau bywyd disgyblion yn rheswm allweddol pam mae ysgolion uwchradd yn llai llwyddiannus nag ysgolion cynradd wrth gynnal iechyd a llesiant disgyblion.

'Mae gan ryw ddau draean o ysgolion cynradd a thraean o'r ysgolion uwchradd yng Nghymru ddull ysgol gyfan cynhwysol o gefnogi iechyd a llesiant disgyblion... Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion eraill sawl agwedd gref i'w cefnogaeth i iechyd a llesiant disgyblion, er nad yw eu dull gweithredu yn un gwirioneddol ysgol gyfan. Fodd bynnag, oni bai bod gan ysgol yr holl agweddau allweddol a restrir uchod, er mwyn cyflwyno neges gydlynus a phrofiad cyson i ddisgyblion, mae perygl bod gwaith da ynysig yn cael ei danseilio, a bod ei effaith yn gyfyngedig. Er enghraifft, gwerth cyfyngedig sydd i wersi ynghylch bwlio os nad yw'r disgyblion yn fodlon ar sut mae'r ysgol yn delio â honiadau ynghylch bwlio; yn yr un modd, ni fydd polisïau am arfer adferol yn golygu llawer i ddisgyblion oni bai bod y staff yn cymhwyso'r dulliau gweithredu hynny wrth weithio gyda'r disgyblion.'

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu pwysigrwydd cofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau:

*'Dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n cadw cofnodion defnyddiol am fwlio, gydag ysgolion yn aml yn cofnodi'r hyn maen nhw'n ei ystyried yn ddifrifol yn unig. Trwy beidio â chofnodi'n ofalus unrhyw honiad ynghylch bwlio gan ddisgyblion, neu ddigwyddiadau a allai gael eu hystyried yn rhai llai pwysig, mae perygl na fydd ysgolion yn gallu creu darlun dros amser ynghylch rhai disgyblion y gallai eu llesiant fod yn destun pryder sylweddol, ond sy'n anhysbys i'r ysgol. Mae hefyd yn golygu bod ysgolion yn methu gwerthuso'u gwaith mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig yn effeithiol.'*

## Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN)

Partneriaeth yw'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion[24] (SHRN) rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd, gyda'r nod o wella iechyd meddwl a lles pobl ifanc trwy gasglu a defnyddio tystiolaeth ar gyfer gwella iechyd.

Yn ystod 2021/22 bu ychydig o dan 125,000 o bobl ifanc 11-16 oed yn cymryd rhan yn yr arolwg.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn amlygu profiadau ysgol amrywiol pobl ifanc o wahanol grwpiau ethnig yng Nghymru. Canfuwyd bod 32% o'r bobl ifanc yn adrodd eu bod wedi dioddef bwlio yn yr ysgol yn ystod y misoedd diwethaf, ac roedd y ganran yma'n uwch yn achos pobl ifanc o rai grwpiau ethnig. Roedd canran y plant oedd yn teimlo bod eu hathro'n eu derbyn yn is yn achos rhai grwpiau ethnig. Yn yr un modd, roedd anghysondeb yng nghanran y bobl ifanc oedd yn teimlo bod ots gan eu hathro amdanyn nhw fel person. Amlygodd canfyddiadau'r ymchwil fod rhai grwpiau ethnig yn llai tebygol nag eraill o nodi bod eu boddhad mewn bywyd yn uwch na 6. Roedd ymatebion pobl ifanc oedd yn Sipsiwn/Deithwyr yn sôn am lefel is o foddhad mewn bywyd, o gymharu â grwpiau ethnig eraill.

## Gobeithion i Gymru

Yn 2022, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru ymgynghoriad cenedlaethol â phlant a phobl ifanc – Gobeithion i Gymru[25], y bu 8,830 o blant a phobl ifanc, 507 o weithwyr proffesiynol a 876 o rieni/ofalwyr yn rhan ohono. Bwriad yr ymgynghoriad oedd clywed barn a phrofiadau plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr, a phobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yng nghyswllt themâu sy'n berthnasol i fywydau plant yng Nghymru.

Canfu'r arolwg fod:

- 57.2% o'r plant BAME 7-11 oed yn pryderu ynghylch bwlio
- 30.1% o'r plant (7-11 oed) a ymatebodd yn adrodd am brofi bwlio neu gael eu trin yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw, gyda hynny'n codi i 42.1% ymhlith y rhai o dras cymysg
- O'r rhai a soniodd am brofi bwlio, adroddodd 80.5% o'r plant BAME (7-11 oed) am brofiadau o fwlio yn yr ysgol.
- Adroddodd bron traean (30.3%) o'r bobl ifanc 12-18 oed eu bod wedi profi bwlio neu gamdriniaeth.

## Bwrdd Diogelu Gwent a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd a DARPL – ymchwil mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd (2023)

Roedd y gwaith hwn ar y cyd yn adrodd am sgyrsiau ymchwil gyda dysgwyr 8-16 oed ar draws ardal Gwent yn ne Cymru, mewn 10 o ysgolion (ar draws y cynradd a'r uwchradd). Roedd y tîm ymchwil yn cynnwys athrawon ac academyddion oedd â phrofiadau bywyd amrywiol. Amlygodd lleisiau'r cyfranogwyr faterion, syniadau ac argymhellion clir ar gyfer atebion tebyg i'r hyn sydd yn yr Adroddiad Sbotolau. Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion a gynhyrchwyd yn cael eu defnyddio i gefnogi cynllunio gweithredu rhanbarthol. Bydd y rhain yn cael eu rhannu'n ehangach wrth symud ymlaen.

# 05 METHODOLEG

**Gan adeiladu ar y sylfaen hon o dystiolaeth oedd eisoes yn bodoli, ac adolygu'r cyd-destun presennol o ran polisi a deddfwriaeth, astudiaeth oedd hon lle roedden ni'n archwilio ac yn ceisio casglu barn plant a phobl ifanc, ochr yn ochr â barn athrawon a rhanddeiliaid allweddol eraill.**



Ein nod oedd deall profiadau o hiliaeth mewn addysg uwchradd, yn ogystal â chanfod enghreifftiau o arfer, gan gynnwys arfer da, a allai ein cyfeirio at fylchau yn y fframweithiau polisi a'r canllawiau presennol.

Defnyddiwyd dulliau ymchwil ansoddol yn bennaf, gan gynnwys grwpiau ffocws, trafodaethau bord gron a chyfweliadau un i un. Casglwyd ein holl ddata rhwng mis Mai 2023 a mis Mehefin 2023. Roedd ein hymchwil yn ceisio clywed gan dri grŵp penodol:

- **Plant a phobl ifanc oed ysgol uwchradd**
- **Athrawon a Phenaethiaid**
- **Rhanddeiliaid ym myd Addysg**



## Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc

Nod ein gwaith ymchwil oedd clywed barn a phrofiadau disgyblion ysgol uwchradd o ystod amrywiol o gefndiroedd ynghylch hiliaeth a digwyddiadau hiliol. Buon ni'n defnyddio dulliau ymgysylltu cyfranogol i sicrhau bod plant yn gallu chwarae rhan weithredol ar hyd y broses ymchwil, fel cyd-gynhyrchwyr ac fel cyfranogwyr yn yr ymchwil. Lluniwyd y dull gweithredu hwn gan roi ystyriaeth fanwl i'r erthyglau a nodwyd yn CCUHP, gan gynnwys eu hawl i gyfranogiad (Erthygl 12) a'u hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 13).

Sefydlwyd grŵp llywio plant a phobl ifanc i benderfynu ar ddyluniad yr ymchwil, casglu'r data a'i ddadansoddi. Recriwtiwyd 10 o blant o banel ymgynghorol presennol y swyddfa a'r grwpiau llysgenhadon cymunedol diddordeb arbennig. Roedd y plant hyn yn rhai rhwng 11 ac 16 oed oedd â phrofiad o hiliaeth a wirfoddolodd i ymuno â'r grŵp llywio Plant a Phobl Ifanc (PPhI). Fe wnaethon nhw lywio proses yr ymchwil a rhoi arweiniad i'r Comisiynydd wrth ymgysylltu â phlant ar draws Cymru ar hyd y gwaith yma.

Y prif ddull a ddefnyddiwyd i glywed barn plant a phobl ifanc oedd cyfweliadau grwpiau ffocws. Fe wnaethon ni recriwtio i'r grwpiau ffocws hyn trwy ein rhwydwaith o Ysgolion Llysgenhadon, a thrwy gyswllt wedi'i dargedu ar ffurf taflenni ar-lein i ysgolion a grwpiau cymunedol mewn ardaloedd daearyddol penodol. Roedd cyfranogiad yn wirfoddol, ac fe wnaethon ni gynnig sesiynau ar-lein neu wyneb yn wyneb, er bod y rhan fwyaf o grwpiau wedi dewis grwpiau ffocws wyneb yn wyneb. Defnyddiodd pob un o'r sesiynau y 10 cwestiwn y cytunwyd arnyn nhw ymlaen llaw, oedd wedi cael eu cynhyrchu ar y cyd â'r Grŵp Llywio PPhI yn fframwaith ar gyfer casglu barn.

Ymgysylltwyd â chyfanswm o 170 o blant o gefndiroedd ethnig amrywiol o bob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru, trwy gyfanswm o 14 o grwpiau ffocws, oedd yn cynnwys 13 o sesiynau wyneb yn wyneb ac 1 sesiwn ar-lein.

Hwyluswyd yr holl sesiynau gan ddau aelod o staff o dîm cyfranogiad Comisiynydd Plant Cymru, ac fe'u cefnogwyd gan staff a/neu wirfoddolwyr o'r sefydliad/ysgol neu'r grŵp ieuenctid oedd yn 'croesawu'. Bu'r plant yn trafod y cwestiynau gyda'r hwyluswyr a'u cyfoedion, ac yn cofnodi eu hatebion ar nodiadau gludiog, y buon nhw'n eu glynu ar y taflenni cwestiynau roedd yr hwyluswyr yn eu casglu. Roedd plant hefyd yn gallu defnyddio 'amlen ddiogel' i rannu eu meddyliau, eu dymuniadau a'u teimladau preifat gyda'r Comisiynydd Plant. Casglwyd adborth llafar a sylwadau a'u trawsgrifio'n ddiweddarach gan staff CPC, i'w dadansoddi gan y Grŵp Llywio PPhI.

## Ymgysylltiad Athrawon a Rhanddeiliaid

Gwahoddwyd rhanddeiliaid, gan gynnwys arweinwyr ysgol a chynrychiolwyr cymunedol, i gymryd rhan mewn trafodaeth bord gron i gychwyn. Roedd y broses ymgysylltu hon yn rhoi cipolwg cychwynnol ac arweiniad i lywio'r cwestiynau penodol fyddai'n cael eu gofyn yn ystod y broses gyfweld.

Ein nod oedd casglu barn a phrofiadau athrawon ynghylch pwnc hiliaeth a digwyddiadau hiliol mewn ysgolion. Y prif ddull a ddefnyddiwyd i wneud hyn oedd cyfweliadau un i un ar-lein. Er mwyn recriwtio athrawon ac addysgwyr i gymryd rhan yn y cyfweliadau, fe wnaethon ni ysgrifennu at Arweinwyr Addysg pob Awdurdod Lleol ac at ysgolion uwchradd, yn ogystal ag at ysgolion sy'n rhan o'n cynllun hawliau plant. Hefyd fe wnaethon ni ddefnyddio ymweliadau ysgol a digwyddiadau i siarad ag athrawon am yr ymchwil a'u gwahodd i gyfranogi.

Fe gynhalion ni gyfweliadau wyneb yn wyneb gydag arweinwyr ysgol ac athrawon o ddeg ysgol uwchradd ar draws wyth awdurdod lleol. Hefyd fe gynhalion ni arolwg, a gwblhawyd gan 12 o addysgwyr ar draws 6 awdurdod lleol.



# 06 BETH GLYWSON NI GAN BLANT A PHOBL IFANC

**Buon ni'n siarad â chyfanswm o 170 o blant trwy 14 o grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda phlant o bob rhan o Gymru, gan gynnwys Gogledd Cymru, Gorllewin Cymru, y De-orllewin a De-ddwyrain Cymru. Dyma beth glywson ni ganddyn nhw.**

## Dealltwriaeth o Hiliaeth

Ar draws yr holl grwpiau ffocws, roedd gan blant ddealltwriaeth glir o hiliaeth fel gwahaniaethu negyddol yn erbyn grŵp penodol o bobl oherwydd eu hil, eu lliw, eu crefydd neu eu diwylliant. Fe wnaethon nhw ychwanegu eu bod yn aml yn clywed iaith hiliol sarhaus, a phobl yn 'gwneud hwyl am ben lliw croen rhywun', neu'n tynnu sylw atyn nhw oherwydd lliw eu croen a'u treftadaeth.

Rhannodd plant eu canfyddiad o hiliaeth fel mater eang oedd wedi gwreiddio'n ddwfn, ac roedden nhw am i ysgolion ystyried sut gallen nhw ymateb, nid i hiliaeth oedd yn digwydd mewn ysgolion yn unig, ond hefyd i'r hyn sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys gartref ac ar-lein, ond sydd hefyd yn cael effaith ar fywyd ysgol y plentyn.

Pan ofynnwyd iddyn nhw am beth roedden nhw'n gobeithio, dywedodd plant eu bod eisiau cydraddoldeb.

*"Rydw i eisiau i bawb edrych heibio i gefndir a diwylliant pobl, a meddwl yn gadarnhaol amdano fe"*

Plant ym Mro Morgannwg



# Profiadau o Hiliaeth mewn Ysgolion

**Roedd ymateb plant i rannu eu profiadau bywyd o hiliaeth yn amrywio, a dywedodd rhai eu bod heb dystio i hiliaeth na'i brofi, neu fod hynny wedi digwydd, ond eu bod ddim yn teimlo'n gyfforddus yn rhannu. Fe wnaethon ni bwysleisio fod dim gorfodaeth ar blant i rannu, ac fe fuon ni'n rhannu gwybodaeth gyda phlant a staff mewn oed ynghylch ffynonellau cymorth dilynol.**

Er gwaethaf hyn, fe glywson ni amrywiaeth o enghreifftiau a phrofiadau o hiliaeth oedd yn destun pryder gan y plant y buon ni'n siarad â nhw, gyda phlant o bob rhan o Gymru yn sôn am normaleiddio iaith hiliol a natur 'pob dydd' profiadau hiliol, ynghyd â'r ffaith nad yw'r digwyddiadau hyn yn cael eu cymryd o ddifri nac yn derbyn sylw, neu eu bod yn arwain at gosbi'r dioddefwyr eu hunain am eu hymateb.

Isod ceir profiadau a rannwyd gan blant, wedi'u rhannu yn ôl ardal:

## Yn Ne-ddwyrain Cymru:

Thema gyffredin oedd bod sylwadau hiliol yn digwydd yn rheolaidd, ond hefyd bod y sylwadau'n 'cael eu normaleiddio' gan y myfyrwyr. Dywedodd llawer o fyfyrwyr eu bod yn teimlo bod hiliaeth yn aml yn cael eu esgusodi fel 'cellwair'.

Rhannodd un grŵp eu bod wedi profi digwyddiad hiliol iawn gydag ysgol arall yn yr ardal, a gychwynnodd ar grŵp 'WhatsApp' gyda negeseuon hiliol – yn defnyddio iaith sarhaus fel 'brawychydd' a 'Nazi', ond a waethygodd wedyn, nes bod cyswllt â'r heddlu. Teimlai'r myfyrwyr nad oedd rheolwyr yr ysgol yn cymryd y peth o ddifri.

Soniodd rhai merched ifanc Mwslimaidd oedd yn gwisgo sgarff ar eu pen am sylwadau fel 'rwyt ti'n cuddio bom yn dy sgarf' sydd wedi'u normaleiddio gymaint iddyn nhw nes eu bod nhw ddim yn adrodd amdanynt. Fe glywson ni un enghraifft o fyfyriwr a gafodd ei atal am ddweud y 'gair N', ond fe ddychwelodd i'r ysgol y diwrnod wedyn, ac yn ôl pob golwg, ni roddwyd sylw i unrhyw beth. Digwyddiad arall a rannwyd oedd hijab merch yn cael ei dynnu i ffwrdd, gan ei gadael yn llefain, a dywedodd y myfyrwyr nad oedd yr ysgol wedi cymryd hyn o ddifri. Ychwanegodd rhai myfyrwyr eu bod wedi cael eu galw'n 'frawychwyr', ond eu bod heb ddweud wrth neb am hynny, er ei fod yn brifo'u teimladau.

Rhannodd un person ifanc fod athrawon â bwriadau da weithiau'n dweud 'fe ddaethon ni i gyd o Affrica'n wreiddiol', ond bod hynny'n arwain at fyfyrwyr eraill yn dweud y 'gair N'. Dywedodd pobl ifanc wrthyn ni hefyd am athrawon a staff oedd wedi defnyddio iaith wael, a allai fod yn hiliol, e.e. dywedodd un athro 'stop monkeying around' wrth grŵp o fechgyn Du, a hyd yn oed ffurfiau sarhaus fel y 'gair P'. Rhannodd un person ifanc fod athro wedi gwneud 'jôc' bod rhai o'r bechgyn oedd ddim yn wyn yn dod o'r 'ghetto.'

Soniodd eraill am ddefnydd o iaith grefyddol neu ddiwylliannol sydd wedi cael ei throi'n fratiaith neu'n rhywbeth y gwneir hwyl amdano fel 'wallahi' – (sy'n golygu 'myn Duw' neu 'rwy'n tyngu i Dduw' yn Arabeg). Dywedodd y myfyrwyr fod hynny'n gwneud adrodd neu herio yn anodd, gan eu bod yn cael eu gweld fel rhai sy'n bod yn lletchwith.

Rhannodd myfyrwyr eu bod weithiau'n gwneud jôcs 'mewnol' gyda myfyrwyr eraill o leiafrifoedd ethnig i normaleiddio'r hyn maen nhw'n ei brofi, neu'n siarad â'u ffrindiau i rannu rhywbeth sy'n pwyso arnyn nhw. Dywedodd rai eu bod wedi ceisio hawlio geiriau neu stereoteipiau hiliol yn ôl, er enghraifft, dywedodd un person ifanc y bydden nhw'n dweud 'ie, dwi'n byta cŵn', i fynd â'r pŵer oddi ar fyfyrwyr eraill sy'n gwneud y sylwadau hyn.

Dywedodd myfyrwyr eu bod yn adrodd am fwlio a digwyddiadau hiliol wrth athro maen nhw'n eu trystio, ond doedden nhw ddim yn siŵr beth fyddai'n digwydd nesa, neu beth yw'r camau nesa tu ôl i'r llenni. Ychwanegodd myfyrwyr eraill fod yr ysgol 'yn anghofio am y peth' pan fyddwch chi'n rhoi gwybod am hiliaeth. Teimlai'r myfyrwyr mai dim ond achosion o hiliaeth oedd yn cynnwys trais corfforol oedd yn cael sylw – mae hynny'n aml yn cael ei gymryd o ddifri, ond yna ychwanegwyd bod unrhyw drais corfforol yn arwain at waharddiad dros dro, ond eu bod nhw ddim yn ymwybodol beth sy'n digwydd i rywun sy'n bod yn hiliol.

Rhannodd un grŵp o blant fod bachgen yn eu dosbarth yn Indiaidd, a bod llawer o bobl yn eu dosbarth yn defnyddio micro-ymosodedd fel siarad ag acen Indiaidd. Disgrifiodd y plant y bobl oedd yn gwneud hyn fel pobl Ddu, a dweud bod yr athro wedi ceryddu'r plant a gwneud iddyn nhw aros ar ôl ysgol, ond roedden nhw'n pryderu am yr effaith ar y bachgen a gafodd ei frifo. Fe fuon nhw'n rhannu pryderon nad oedd yr athro o bosib yn deall y gwahaniaethau diwylliannol a hanesion y diwylliant, oherwydd eu bod o gefndir Gwyn. Ychwanegodd eraill fod yr ysgol yn aml yn delio â thrais corfforol yn dda iawn, ond bod llai o ddealltwriaeth o ficro-ymosodedd llafar ac ymateb llai effethiol iddo.

Fe glywson ni gan rai fod cyfryngau cymdeithasol yn gwneud cyfraniad mawr at 'ddoniolwch' hiliaeth. Mae llawer o fideos tiktok hiliol yn cael eu rhannu, ac roedd eraill wedi cael fideos ciplun o bobl yn difrïo â'r 'gair N'.

Rhannodd myfyriwr arall eu bod yn credu bod rhieni a gofalwyr yn defnyddio iaith hiliol gartref, a bod y plant yn copïo hynny. Ychwanegodd eraill fod myfyrwyr weithiau yn bod yn hiliol ond heb sylweddoli hynny – felly mae angen rhagor o addysg.

## Yn Ne-orllewin Cymru:

Mewn un grŵp ffocws ysgol, nododd plant eu bod yn clywed y gair sarhaus N yn rheolaidd, ac mewn ffordd sydd bron wedi'i normaleiddio yn yr ysgol. Fe wnaethon nhw ychwanegu bod merch maen nhw'n ei nabod yn profi hiliaeth gan ei ffrindiau yn rheolaidd, er enghraifft galw'r 'gair N' arni, ond gan mai nhw yw'r myfyrwyr poblogaidd, mae hi'n teimlo ei bod hi'n methu gwneud dim, a 'jyst yn chwerthin' gyda fe. Adroddodd un grŵp fod rhai disgyblion wedi bygwth a phryfocio disgybl arall oherwydd lliw ei chroen, ond ei bod hi ddim eisiau adrodd am y peth. 'Mae fy ffrind yn goddef cam-drin hiliol gan grŵp o ddisgyblion poblogaidd yn ei dosbarth oherwydd ei bod hi eisiau ffitio i mewn. Mae hi'n cael ei galw'n fwnci ac yn gasglwr cotwm'. Rhannodd un person ifanc fod ei ffrind yn aml yn defnyddio'r 'gair N', ond ei fod yn ansicr beth i'w wneud pan fydd hynny'n digwydd.

Rhannodd grŵp oedd yn cynnwys cyfranogwyr Gwyn Cymreig yn bennaf eu bod heb brofi hiliaeth yn uniongyrchol, ond eu bod wedi tystio iddo, y rhan fwyaf ohonyn nhw'n ddyddiol. Roedd hyn yn cynnwys sarhau hiliol yn y coridor, a phobl yn chwerthin am y peth, a phobl yn defnyddio iaith hiliol sarhaus yn ddyddiol wrth siarad am fechgyn o dras Asiaidd. Dywedodd un plentyn am y rhain – ***"Dim ond un o'r digwyddiadau yma yr adroddwyd amdano. Mae'r cyfan yn cael ei sgubo dan y carped"***.

***"Gollyngodd bachgen yn fy nosbarth ddarn o gotwm o'i got a gofyn i fachgen Du o flwyddyn 10 ei godi. Buon nhw'n ymladd wedyn"*** Roedd y plentyn yn ansicr beth ddigwyddodd i'r naill na'r llall wedyn, ond soniodd y grŵp am sut mae rhaid i'r myfyriwr o leiafrif ethnig amddiffyn eu hunain yn aml, ac yna nhw sy'n cael y bai.

Rhannodd un myfyriwr ***"Fe ges i fy ngalw'n 'fwnci' gan fyfyrwyr. Adroddodd myfyrwyr eraill am y peth, a chysylltwyd â'r rhieni, ond fe ddechreuodd hi [y myfyriwr a alwodd yr enw arni] grio, felly doeddwn i ddim eisiau gwneud ffys."***

Plentyn yn Sir Benfro

Cyfeiriodd llawer o fyfyrwyr hefyd at hiliaeth crefyddol, yn arbennig Islamoffobia. Rhannodd rhai myfyrwyr fod ysgolion yn arfer peidio â chaniatáu sgarffiau pen, ac roedden nhw'n teimlo bod hynny'n hiliol. Soniodd eraill am anghysondebau o ran pryd bydden nhw'n cael cyflawni gweithgareddau crefyddol.

***"Fyddai fy athro ddim yn gadael i fi ddefnyddio'r toiled ar gyfer ymolchi/wudu, sy'n angenrheidiol er mwyn gweddïo. Mae llawer o bobl eraill yn fy ysgol wedi cael yr un broblem. Roedd hynny'n teimlo'n hiliol i fi, gan ei fod yn gadael i fyfyrwyr eraill ddefnyddio'r toiled unrhyw bryd"***

Plentyn yn Abertawe

## Yng Nghanolbarth Cymru:

Rhannodd plant mai'r gair N yw'r sarhad mwyaf cyffredin maen nhw'n ei glywed. Ychwanegodd rhai fod hiliaeth wedi'i normaleiddio gymaint ac yn digwydd mor ffwrdd â hi fel eu bod o'r braidd yn sylwi arno. Soniodd llawer am deimlo ei fod wedi dod yn fwy derbyniol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Soniodd un cyfranogwr fod enwau'n cael eu galw ar ei ffrind oherwydd lliw ei chroen, a'i bod yn teimlo'n wael iawn drosti, a ddim yn gwybod sut orau i gefnogi ei ffrind oherwydd nad oedd hi erioed wedi profi dim byd tebyg.

***"Cafodd fy ffrind sydd â chroen tywyllach na fi ei bwlio llawer, byddai pobl yn galw'r gair N arni. Roedd yn fy ypsetio'n ofnadw. Doeddwn i ddim yn gwybod sut i'w helpu."***

Plentyn ym Mhowys

Digwyddiad roedd llawer yn cofio amdano oedd myfyriwr yn y dosbarth daearyddiaeth yn edrych ar fap o Niger ac yn chwerthin wrth ddweud y gair N. Cawson nhw eu ceryddu, ond dalion nhw ati i wneud y peth.

Rhannodd myfyriwr o wlad Pwyl bod pobl wedi dweud wrthi am 'fynd nôl i'w gwlad' yn yr ysgol. Fe adroddodd hi am y peth, a bu'n rhaid iddi wneud datganiad. Ychwanegodd fod y broses wedi'i hypsetio'n fawr, ac nad yw'n teimlo bod y mater wedi cael ei ddatrys.

Rhannodd eraill eu bod wedi sylwi ar gynnydd yn y sarhad hiliol a'r galw enwau yn ystod diwrnod pontio blwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd. Roedd y myfyrwyr hŷn yn yr Ysgol Uwchradd yn 'annog' hyn. Roedden nhw'n gwybod eu bod yn ymddwyn yn hiliol wrth eraill, ond doedden nhw ddim wedi adrodd, oherwydd eu bod yn teimlo na fyddai unrhyw beth yn digwydd. Roedd gan un cyfranogwr brofiad uniongyrchol o hiliaeth gan gyd-fyfyriwr, ar ôl cael eu galw'n "fwnci du". Dywedwyd hefyd fod rhai myfyrwyr yn annog hiliaeth ac yn gofyn i fyfyrwyr eraill ddefnyddio geiriau hiliol difrïol.

***"Dywedodd rhywun eu bod nhw ddim eisiau i fi eistedd nesa atyn nhw oherwydd lliw fy nghroen. Fe wnes i jyst symud i ffwrdd".***

Plentyn ym Mhowys

## Yng Ngogledd Cymru:

Rhannodd plant enghreifftiau o eiriau hiliol sarhaus yn cael eu defnyddio amdanynt, o gael eu 'gwthio a'u hwpio', a phan fydd hynny'n digwydd yn yr ysgol, 'fel arfer bydd y person sy'n niweidio yn cael eu cadw mewn ar ôl ysgol'. Ond disgrifiodd myfyrwyr hefyd sut maen nhw'n aml yn cael cyfarwyddyd i anwybyddu'r digwyddiadau hyn, fel bod dim camau pellach yn cael eu cymryd. Datgelwyd un achos o daflu cerrig a chreigiau at fyfyrwyr yn ogystal.

Fe glywson ni enghreifftiau hefyd am fwlio hiliol parhaus yn digwydd y tu allan i'r ysgol neu ar y ffordd adref o'r ysgol, gyda myfyrwyr yn gorfod gadael yr ysgol yn gynnar i osgoi cael eu dilyn adref. Soniodd y plant hyn am deimlo'n drist ac yn ofnus am y sefyllfa – ***"Weithiau maen nhw'n neis, ond ar adegau eraill mae pobl yn galw enwau arnoch chi"***.

Fe glywson ni gan rai myfyrwyr o gefndir sipsiwn a theithwyr, a rannodd eu profiadau penodol:

***"Mae'n eich gwneud chi'n gandryll. Bydda i'n ceisio stopio nhw. Nid dim ond yn yr ysgol, mae plant ac oedolion wrthi. Maen nhw'n gyrru heibio'r safle ac yn gweiddi P****. Does dim ots gan yr heddlu. Pobl yn bwrw ar fy nrws. Dwy ddim yn gwybod beth gallan nhw (athrawon/heddlu) wneud. Mae llawer o bobl ddrwg tu allan."***

Plentyn yn Wrecsam

Disgrifiodd y myfyrwyr lawer o bethau oedd yn 'tarfu arnyn nhw'. ***"Maen nhw'n rhegi arnaf fi ac yn gwthio fi o hyd, mae'n gwneud fi'n drist iawn"***. Adroddon nhw am hyn wrth athro a chael cyfarwyddyd i anwybyddu'r peth. Fe ddwedson nhw ei fod 'yn digwydd drwy'r amser'.

Ychwanegodd y myfyriwr y bydden nhw'n ymateb yn wahanol yn ôl y math o berthynas oedd ganddyn nhw gyda'r person, er enghraifft, efallai bydden nhw'n ceisio galw eu ffrindiau i gyfrif am y peth. Ond fe ychwanegon nhw hefyd eu bod weithiau'n gadael i 'jôcs' hiliol fod, gan fod y peth wedi'i normaleiddio i raddau helaeth.

# Rhwystrau i adrodd am hiliaeth

**Ar draws Cymru, amlygodd plant ystod o rwystrau i adrodd am hiliaeth, o ddiffyg ymwybyddiaeth o brosesau adrodd, i ddiffyg ymddiriedaeth mewn athrawon, ymdeimlad nad oedd hiliaeth yn cael ei gymryd o ddifri, ofn esgaladu a thalu'r pwyth, ac embaras a stigma. Rhwystr arall pwysig yw normaleiddio hiliaeth sydd efallai'n fwy 'achlysurol', a gweld hynny fel rhywbeth normal, pob dydd.**

- Normaleiddio
- Ansicr sut i adrodd/ wrth bwy
- Ansicr beth fyddai'n digwydd nesa
- Ofn esgaladu a thalu'r pwyth
- Embaras a Stigma
- "Does dim yn digwydd beth bynnag"

Dywedodd y rhan fwyaf o'r plant y buon ni'n siarad â nhw ar draws Cymru eu bod yn ansicr sut mae eu hysgol yn delio â hiliaeth, o ran sut mae adrodd a beth sy'n digwydd wedyn. Dim ond y rhai oedd wedi adrodd am hiliaeth oedd yn gallu rhannu'r broses adrodd yn eu hysgol nhw. Rhannodd rhai plant eu bod nhw'n ymwybodol y gall rhieni hefyd roi gwybod am ddigwyddiadau hiliol, ond eu bod nhw'n ansicr beth fyddai'n digwydd wedyn.

Ar ben hynny, rhannodd plant fod diffyg eglurder ynghylch adrodd a rhwystrau i adrodd yn effeithio ar sut mae'r rhai sydd wedi profi hiliaeth yn teimlo am eu hysgol a lefel yr ymddiriedaeth a all fod ganddyn nhw yma.

Rhannodd plant hefyd fod gorfod siarad naill ai ag athro neu â rhywun ym maes gofal bugeiliol am brofiad o hiliaeth yn ddigon anodd, yn enwedig gan eu bod nhw ddim yn gwybod beth fydd yn digwydd nesa. Rhannodd y myfyrwyr eu bod nhw eisiau i'r ysgol sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol pwy gallan nhw siarad â nhw a throi atynt os byddan nhw'n profi hiliaeth.

Rhannodd rhai plant na fydden nhw o bosib yn adrodd oherwydd ofn na fyddai'r peth yn cael ei gymryd o ddifri, neu y byddai'n cael ei sgubo dan y carpped. Dywedodd rhai fod athrawon yn aml yn dweud wrthyn nhw am 'anwybyddu'r peth, byddwch yn gall, dim ond jôc yw e' – mae'n cael ei ddiystyru, ac yna fydd dim yn digwydd.

At ei gilydd, dywedodd y rhan fwyaf o'r plant mai ychydig iawn sy'n adrodd am hiliaeth i'r athrawon, gan fod teimlad cyffredinol mai ychydig iawn sy'n digwydd o ganlyniad i hynny. Y cam gweithredu pennaf roedd plant am ei weld oedd bod athrawon yn 'stopio anwybyddu hiliaeth.'

> *"Does neb wir yn adrodd, achos does dim byd yn cael ei wneud."*
>
> Plentyn yn Abertawe

*"Mae'r ysgol yn fwy strict am wisg ysgol nag wrth ddelio â hiliaeth."*

Plentyn yn Wrecsam

*"Mae'r ysgol yn dweud wrthyn ni eu bod nhw'n cymryd hiliaeth o ddifri ac y byddwch chi'n cael eich gwahardd os byddwch chi'n cymryd rhan [mewn hiliaeth], ond mae llawer o achosion wedi bod, a does dim byd wedi digwydd."*

Plentyn yng Nghaerdydd

Ychwanegodd plant fod rhaid gwneud 'ffys' fawr amdanyn nhw os oedden nhw eisiau i ddigwyddiadau hiliol gael eu cymryd o ddifri. Fe nodon nhw hefyd fod y cam-drin neu'r bwlio yn aml yn digwydd ar lafar, ond dim ond digwyddiadau lle roedd cam-drin corfforol y byddai'r athrawon yn eu cymryd o ddifri.

Rhannodd myfyriwr Pwylaidd fod athrawon ddim yn gwneud dim os ydych chi'n Wyn – dywedson nhw fod athrawon ddim yn cymryd y peth o ddifri os bydd myfyriwr Gwyn yn hiliol wrth fyfyriwr Gwyn arall.

Ychwanegodd y myfyrwyr fod teuluoedd (rhieni, antis, cefndryd, rhieni cu etc.) weithiau wedi profi hiliaeth gorfforol wael iawn pan oedden nhw'n ifanc, ac felly mewn cymhariaeth bod eu profiadau eu hunain ddim i'w gweld mor ddifrifol. Rhannodd plant y gallai hynny atal myfyrwyr rhag dweud wrth yr oedolion gartref.

Soniodd llawer hefyd am bryderu y byddai'r person oedd yn hiliol yn gwneud rhywbeth gwaeth neu'n talu'r pwyth. Amlygwyd ofn cael eu bwlio mwy fyth, a methu adrodd am rywbeth yn ddienw, fel rhywbeth sy'n atal adrodd gan bob grŵp ffocws ledled Cymru.

*"Pan fyddwch chi'n gwneud datganiadau tyst mae rhaid i chi enwi pawb welodd y peth yn digwydd.*

*Mae hynny'n golygu mod i ddim eisiau dweud wrth neb, achos byddan nhw'n casáu fi."*

Plentyn yng Nghaerdydd

Soniodd plant yn aml am anhawster adrodd rhag ofn iddyn nhw gael eu gweld fel 'snitsh' neu 'glepgi'. Rhannodd un person ifanc eu bod yn teimlo embaras ar sail eu profiad personol, a bod hynny wedi golygu eu bod nhw ddim eisiau adrodd yn y dyfodol.

# Awgrymiadau gan ddysgwyr ynghylch delio â hiliaeth

- Sancsiynau a Chosbau
- Dull Adferol
- Addysg i'r cyflawnydd
- Addysg i'r ysgol ehangach
- Cynnwys yr Heddlu a Rhieni yn ôl y galw

**Fe wnaethon ni ofyn i blant a phobl ifanc sut maen nhw'n meddwl dylai ysgolion ddelio â hiliaeth.**

## Bod yn Eglur a Thryloyw

Neges amlycach na dim oedd bod angen mwy o eglurder a thryloywder ynghylch sut mae cyflwyno adroddiadau, beth sydd digwydd wrth dderbyn adroddiadau am ddigwyddiadau hiliol, a beth gall y rhai sy'n rhoi gwybod amdanyn nhw ddisgwyl. Soniodd plant ar draws Cymru am bwysigrwydd 'gweithredu go iawn' i ddelio â hiliaeth.

Soniodd llawer o fyfyrwyr eu bod nhw ddim wir yn ymwybodol beth oedd yn digwydd i'r rhai oedd wedi ymddwyn yn hiliol, ond eu bod yn deall y gallai rhywun siarad â'r myfyrwyr yma, neu y gallen nhw gael eu hatal o'r ysgol am ddiwrnod, ond yna eu bod nhw'n dod nôl, a 'bod dim byd wir yn newid.'

*"Dwy ddim wir yn gwybod – bydden nhw'n galw ni draw ac yn dweud wrthyn ni fod hiliaeth ddim yn iawn, OND dwy ddim yn gwybod beth sy'n digwydd wedyn. Doedden nhw byth yn dysgu hynny i ni."*

Plentyn yn Abertawe

Soniodd rhai plant fod angen ymateb mwy cyson, a allai gynnwys cyfiawnder adferol, addysg neu gosbi trwy systemau disgyblu ysgolion. Byddai hynny'n dangos iddyn nhw fod yr ysgol ddim yn goddef hiliaeth o gwbl.

*"Yn fy ysgol i, mae rhaid i gyflawnwyr fynd i 'rehab', lle maen nhw'n llenwi'r llyfryn cydraddoldeb. Dwy ddim yn gwybod ydyn nhw'n cymryd hynny o ddifri."*

Plentyn yn Sir Benfro

*"Rydw i wedi rhoi gwybod am hiliaeth, ac fe wnaeth yr athrawon ddelio â hynny trwy siarad â nhw, ond dyw e ddim wedi stopio unrhyw beth. Maen nhw'n dal i wneud yr un sylwadau tuag ataf fi, dwy ddim yn credu bod digon wedi cael ei wneud."*

Plentyn ym Mhowys

## Sancsiynau a Chosbau

Roedd delio â chyflawnwyr[26] hiliaeth yn fwy effeithiol yn thema allweddol ar draws ein sgyrsiau gyda phlant a phobl ifanc a soniodd am bwysigrwydd sancsiynau priodol a chosbi, wedi'u cyfuno â dulliau gweithredu adferol, a hefyd addysg i'r cyflawnydd a'r ysgol ehangach.

Soniodd plant am eu hawydd i weld 'cosb go iawn am fod yn rhan o hiliaeth'. Awgrymodd rhai plant y dylai pob achos o hiliaeth gael ei gofnodi'n ffurfiol, yn hytrach na rhoi rhybudd geiriol, ac y dylai camau disgybl gael eu cymryd bob tro, gan nodi hynny ar eu cofnod ysgol.

Roedd llawer o blant am weld athrawon yn cymryd hiliaeth yn fwy o ddifri, ac yn dangos hynny trwy roi cosb fwy sylweddol a phendant am hiliaeth, gan gynnwys ynysu, atal a gwahardd.

*"Mae rhaid i chi fynd i'r hwb a gwneud datganiad, ac mae'r athrawon yn delio â'r peth. Hefyd mae ynysu'n cael ei ddefnyddio... Ond dyw'r rhain ddim yn gweithio, dyw e ddim yn teimlo fel cosb."*

Plentyn ym Mhowys

Fodd bynnag, roedd rhai plant hefyd yn cydnabod cyfyngiadau dulliau gweithredu cosbol:

*"Does dim wir ffordd gywir o ddelio â'r peth – does dim ots gan fwlis am gael eu cosbi, felly mae'n dal i ddigwydd."*

Plentyn ym Mhowys

## Cyfiawnder Adferol

Awgrymodd rhai plant y bydden nhw'n hoffi gweld dull gweithredu cyfiawnder adferol, yr oedden nhw'n ei ddisgrifio fel cyfarfod cychwynnol gyda'r person gafodd eu brifo, ac yna gyda'r person a fu'n gweithredu'n hiliol. Roedden nhw'n ychwanegu mai elfen bwysig oedd bod yr holl gamau gweithredu sy'n cael eu cytuno neu eu cyflawni wedyn yn cael eu rhannu gyda'r person a gafodd eu niweidio.

Amlygodd plant eu bod nhw hefyd yn dymuno gweld mwy o gyfleoedd i addysgu'r myfyrwyr sy'n bod yn hiliol.

> *"Mae gan fy ysgol i ardal 'rehab' lle rydych chi'n dysgu hanes geiriau drwg rydych chi wedi'u defnyddio, a pham maen nhw'n brifo."*
>
> Plentyn yn Abertawe


Soniodd plant hefyd y bydden nhw'n hoffi i athrawon archwilio ble mae myfyrwyr yn dysgu'r meddyliau hiliol yma er mwyn eu hailaddysgu.

Ychwanegodd plant fod ysgolion yn aml yn cynnal gwasanaethau i siarad am hiliaeth a pham mae'n beth drwg ar ôl digwyddiad hiliol, ond bod rhai plant yn teimlo 'bod neb yn cymryd rhain o ddifri'. Ychwanegodd eraill ei fod yn dibynnu ar sut mae myfyrwyr yn teimlo am bwnc, efallai bydd myfyrwyr sydd eisoes â diddordeb yn ei fwynhau, ond dywedodd un plentyn "fwy na thebyg fydd rhain ddim yn gwneud gwahaniaeth i'r rhai sydd eisoes yn ymddwyn yn hiliol – byddan nhw'n dal ati beth bynnag."

## Cynnwys asiantaethau allanol

Gwnaeth rhai plant a phobl ifanc sylwadau y dylai ysgolion gydweithio'n agosach â'r gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a grwpiau cymunedol, i atal a delio â digwyddiadau hiliol. Dywedodd rhai plant y bydden nhw'n hoffi i athrawon esbonio wrth fyfyrwyr beth fyddai'n digwydd petai'r un ymddygiad yn digwydd y tu allan i'r ysgol, a bod hynny'n drosedd atgasedd ac yn anghyfreithlon. Dywedodd rhai y bydden nhw'n hoffi cynnwys yr heddlu yn y broses yn ôl y galw, ond dywedodd eraill fod troi at yr heddlu yn codi ofn. Dywedodd rhai plant o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr y byddai'r posibilrwydd o droi at yr heddlu yn golygu na fydden nhw eisiau rhoi gwybod am achosion.

# Gwell cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n profi hiliaeth




**Roedd gan blant rhai negeseuon clir ac awgrymiadau ar gyfer sut gallai ysgolion gefnogi myfyrwyr oedd yn profi hliaeth.** Roedd y rhain yn troi o gwmpas sicrhau gwybodaeth haws a chliriach am sut i adrodd am hiliaeth, darparu lle diogel cefnogol i'r rhai oedd wedi profi hiliaeth a rhoi gwybod amdano, yn ogystal â chynnig cefnogaeth gan gyfoedion, ac athrawon penodol i gefnogi'r broses.

> *"Rwy'n teimlo dylen nhw roi posteri o amgylch yr ysgol yn esbonio beth fyddai'n digwydd wrth i chi adrodd eich bod wedi profi sefyllfa hiliol."*
>
> Plentyn, Penfro

Yn allweddol, dywedwyd bod angen rhoi diweddariad i'r bobl ifanc oedd wedi rhoi gwybod am hiliaeth ynghylch beth oedd yn digwydd o ganlyniad i'w hadroddiad, a sicrhau bod cefnogaeth dda i'w hiechyd meddwl a'u llesiant ehangach.

Yn fwy cyffredinol, gwnaed awgrymiadau am bwysigrwydd sicrhau cyfleoedd dysgu digonol i ddisgyblion ynghylch hiliaeth a diwylliannau amrywiol, yn ogystal â mwy o hyfforddiant ar y pwnc i athrawon.

Cyfeiriodd llawer at yr angen am fod yn gliriach ynghylch y broses adrodd a beth sy'n digwydd wedyn. Dywedodd rhai plant eu bod nhw ddim yn hoffi rhoi gwybod am ddigwyddiadau hiliol, gan eu bod yn teimlo bod hynny'n gwaethygu'r sefyllfa, ond awgrymwyd y gallen nhw ystyried gwneud hynny petai modd iddyn nhw ymwneud yn fwy â beth sy'n digwydd wedi'r adroddiad. Roedd angen amlwg am gyfathrebu y bydd athrawon yn cymryd y peth o ddifri – gan ymchwilio iddo ar unwaith a rhoi gwybod i'r myfyriwr beth sy'n digwydd.

> *"Dyw pobl ddim eisiau rhoi gwybod am y peth achos dydyn nhw ddim yn credu bydd unrhyw beth yn digwydd. Os nad ydyn nhw'n gwybod bod gweithredu'n digwydd, neu os ydyn nhw heb gael diweddariad, mae hynny'n gallu effeithio ar awydd pobl i adrodd. Maen nhw'n cael gwybod 'rydyn ni wedi delio â'r peth', a dyna fe."*
>
> Plentyn, Wrecsam

O ran gwneud adrodd am hiliaeth yn haws, roedd consenswys bod teimlo embaras yn rhwystr allweddol, ac felly awgrymodd plant, er y byddai derbyn gwybodaeth ar ôl adrodd am hiliaeth yn ddelfrydol, y dylai fod opsiwn adrodd yn ddi-enw yn ogystal, er enghraifft defnyddio blychau adrodd di-enw, a ddylai gael eu monitro'n rheolaidd. Awgrymodd plant hefyd archwilio opsiynau ar-lein ar gyfer hyn, fel ffurflenni Google neu godau QR (er bod cyfyngu ar ddefnydd o ffonau symudol yn cael ei gydnabod yn rhwystr i'r dull adrodd yma). Awgrymodd eraill ddefnyddio gwahanol ffurflenni neu apiau mae rhai ysgolion yn eu defnyddio, lle gallwch chi anfon neges fwy uniongyrchol at athrawon.

## Lle diogel

Bron ym mhob grŵp, awgrymodd plant gynnig lle diogel y gall unrhyw un fynd iddo os oes rhywbeth wedi digwydd iddyn nhw, a lle gall myfyrwyr gael mynediad at bobl sydd wedi cael eu hyfforddi i ymateb i hiliaeth. Byddai hwn yn lle iddyn nhw 'ymdawelu', 'ymlacio', ac 'archwilio emosiynau'.

> *"Dylai fod fel ystafell dawel, lle gall myfyrwyr ffonio'u rhieni neu ymlacio os ydyn nhw eisiau amser tawel."*
>
> Plentyn, Canolbarth Cymru

## Athro allweddol/dynodedig

Awgrymodd llawer hefyd nodi athro penodol, wedi'i hyfforddi, sy'n delio â'r materion yma, ac y gall myfyrwyr droi atyn nhw, siarad â nhw, a chael cyngor ganddyn nhw. Roedd pwysigrwydd bod â rhywun i siarad â nhw, oedolyn oedd yn cael eu trystio, ac aelod o'r tîm cefnogi bugeiliol, yn allweddol. Cefnogwyd y pwynt yma gan enghreifftiau da a drwg lle roedd ymateb athro yn rhan hanfodol o beth ddigwyddodd nesaf, a sut cefnogwyd y dioddefydd a'r cyflawnydd mewn achos o hiliaeth. Ychwanegodd y myfyrwyr *"rydyn ni'n gwybod bod yna aelodau o staff gallwn ni drystio sydd ar gael i helpu, ond mae'r nifer yn eitha bach, oherwydd dim ond rhai athrawon fyddai'n 'gwneud rhywbeth'."* Ychwanegwyd hefyd ei fod yn bwysig i athrawon gynnal cyfrinachedd ynghylch pwy oedd wedi adrodd wrthyn nhw, ond bod hynny'n aml ddim yn digwydd.

Awgrymodd rhai plant y gallai ysgolion greu 'Pennaeth Amrywiaeth' sy'n ymateb i'r achosion hyn ac yn cefnogi pobl ifanc gyda nhw. Awgrymodd eraill y dylai Llywodraeth Cymru greu amlinelliad neu feini prawf ar gyfer ysgolion ynghylch sut mae delio â digwyddiadau hiliol. Gallai hynny gynnwys creu rôl athro sy'n delio â digwyddiadau hiliol yn unig.

## Cefnogaeth Cyfoedion

Cyfeiriodd rhai plant hefyd at y ffaith bod cael cefnogaeth eich cyfoedion yn gallu bod yn bwysig iawn. Fe glywson ni am rai enghreifftiau cadarnhaol o ysgolion oedd â phwyllgorau amrywiaeth neu grwpiau cefnogi disgyblion – sy'n gweithredu fel *"grŵp creadigol a chefnogi i drafod beth sydd wedi digwydd mewn ffordd braf a diogel"*. Ond fe nodwyd hefyd, lle roedden nhw'n bodoli, fod angen i'r grwpiau hyn sicrhau eu bod hefyd yn cynnwys pob diwylliant a hunaniaethau eraill, gan gynnwys hunaniaeth LHDTC+.

## Teulu

Awgrymodd rhai gynnwys rhieni o'r cychwyn, cyn gynted ag yr adroddir am ddigwyddiad hiliol, ac y dylai hynny gynnwys rhieni'r dioddefydd yn ogystal â'r cyflawnydd. Fodd bynnag, teimlai eraill y gallai hynny wneud plant yn llai parod i adrodd, petaen nhw'n teimlo y byddai ffys fawr ynghylch y peth. Roedd cytundeb cyffredinol bod rhaid sicrhau ymateb cymesur gan yr ysgol i'r digwyddiad, ond y gallai fod yn anodd sicrhau consenswys ar hyn o gychwyn digwyddiad.

## 'Gwirio ar hap'

Yn ogystal â gwella systemau adrodd, roedd rhai plant hefyd yn argymell 'gwirio ar hap' i fesur beth sy'n digwydd i fyfyrwyr – lle gallan nhw gasglu enghreifftiau o hiliaeth sy'n digwydd mewn ysgolion.

# Dysgu ehangach am hiliaeth ac amrywiaeth

**Yn ogystal â rhoi cefnogaeth uniongyrchol i'r rhai oedd yn profi hiliaeth, amlygodd plant mai un ffordd o helpu pob disgybl a allai brofi hiliaeth, ac atal digwyddiadau hiliol, oedd cynnig cyfleoedd dysgu ehangach yn rheolaidd i ddisgyblion ddysgu am hiliaeth.**

Dyma rai awgrymiadau:

- Mwy o wersi am hiliaeth i'w stopio rhag digwydd yn y lle cyntaf
- Dysgu am hiliaeth a sut mae wedi newid dros amser e.e. ym meysydd Addysg Grefyddol a Hanes pan fydd y pynciau hynny'n orfodol.
- Dysgu am wahanol ddiwylliannau trwy 'ddiwrnodau diwylliant'
- Defnyddio cyfnodau dosbarth i drafod diwylliant, amrywiaeth a chynhwysiad mewn ffordd ddiogel ar y cyd
- Ar ôl digwyddiad, bod ysgolion yn cyflwyno gwasanaeth, yn addysgu myfyrwyr pam roedd yr hyn ddigwyddodd mor niweidiol.
- Bod ysgolion yn normaleiddio siarad yn agored ac yn gadarnhaol am ddiwylliant, hil a chrefydd, a hefyd beth yw canfyddiad pobl o hiliaeth. Bydd hyn yn helpu pobl i rannu profiadau o hiliaeth gydag athrawon.
- Mwy o bosteri o amgylch yr ysgol yn sôn am hiliaeth a pham dyw e ddim yn iawn.
- Sefydliadau fel EYST a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn dod mewn i rannu pa gefnogaeth sydd ar gael ac esbonio beth yw hiliaeth.
- Normaleiddio siarad am wahaniaethau hil, a dathlu hynny.
- Gallen ni gynnal ein diwrnod gwrth-hiliaeth ein hunain – gyda gwahanol weithdai a gweithgareddau.

## Dathlu amrywiaeth mewn Ysgolion

Thema gyffredin oedd pwysigrwydd dathlu amrywiaeth mewn ysgolion, y dywedodd plant wrthyn ni ei fod yn digwydd mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys trwy wasanaethau ysgol, neu 'ddiwrnodau diwylliant'.

Yn llawer o'r grwpiau ffocws ledled Cymru, rhannodd plant enghreifftiau cadarnhaol o'r diwrnodau diwylliant yma, lle gallen nhw rannu a dathlu diwylliannau amrywiol, gan gynnwys cyfle i'r myfyrwyr wisgo dillad diwylliannol a blasu bwyd. Roedd y plant yn pwysleisio bod rhannu yn bwysig, ac yn helpu i gychwyn sgyrsiau am wahanol ddiwylliannau a gwahaniaethau hil a chrefydd.

Fe glywson ni lawer o enghreifftiau o ddosbarthiadau lle cafodd myfyrwyr eu hannog i rannu eu treftadaeth gydag eraill yn y dosbarth, ac roedd amrywiaeth o ymatebion i'r arfer yma. Fe glywson ni fod myfyrwyr o gefndir ethnig lleiafrifol yn aml yn cael cais i addysgu myfyrwyr eraill am eu treftadaeth, a hynny gan fyfyrwyr eraill ac athrawon. Rhannodd rhai eu bod wedi cael cais yn y gorffennol i greu adnoddau ar gyfer yr ysgol. Roedd rhai yn mwynhau cael cais i rannu, ac yn teimlo bod hynny'n eu gwneud nhw'n rhan o'r gymuned.

*"Fe wnes i a fy ffrindiau roi cyflwyniad i'r ysgol yn y gwasanaeth. Fe wnes i fwynhau gweithio gyda fy ffrindiau, ac roeddwn i'n hapus i rannu."*

Plentyn yn Sir Benfro

Fodd bynnag, dywedodd rhai plant eu bod yn teimlo bod rhaid iddyn nhw amddiffyn eu diwylliant neu eu crefydd, neu fod yn arbenigwyr, ac roedden nhw'n teimlo eu bod dan ormod o bwysau. Dywedodd rhai myfyrwyr wrthyn ni eu bod yn teimlo fel petaen nhw o dan sbotolau, a'u bod yn ofni rhannu eu diwylliant.

*"Mae rhaid i fi gynrychioli fy niwylliant bob amser. Alla i ddim gwneud unrhyw beth o'i le."*

Plentyn yn Wrecsam

## Amrywiaeth yn y Cwricwlwm

Dywedodd plant eu bod yn cael gwersi sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth a chydraddoldeb, ond nid yw'r myfyrwyr bob amser yn eu cymryd o ddifri. Un sylw oedd bod yr athrawon 'ddim yn rhoi llawer o sylw' i'r gwersi yma, a dydyn ni ddim yn ddiddorol nac yn hwyl.

*''Dyw cydraddoldeb ac amrywiaeth ddim yn cael eu dysgu'n iawn. Mae'n digwydd yn bennaf trwy lyfrau ac ambell wasanaeth, a dydyn ni ddim wir yn gweld bydd effeithiau hirdymor hynny'n datrys hiliaeth.'*

Plentyn yn Abertawe

*"Problem gydag ABCh a rhaglenni addysgol yw bod pobl ddim yn eu mwynhau a ddim wir yn eu cymryd o ddifri, maen nhw'n teimlo'n llai swyddogol na gwersi arferol. Byddai angen i addysg am hiliaeth deimlo'n bwysig (fel gwersi Saesneg neu wyddoniaeth) i bobl ymgysylltu'n fwy â nhw."*

Plentyn yng Nghaerdydd

Rhannodd eraill fod eu hysgol wedi neilltuo adegau i archwilio materion perthnasol, gan gynnwys cenhedlaeth Windrush, Mis Hanes Pobl Ddu, Eid, a Diwali. Teimlai rhai mai dim ond yn ystod Mis Hanes Pobl Ddu y caiff amrywiaeth hil ei drafod, ond "mae'r gwersi'n ddiflas, a does neb yn gwneud llawer o ymdrech." Rhannodd rhai plant, 'er mai'r athrawon sy'n penderfynu beth rydyn ni'n dysgu', eu bod nhw'n derbyn awgrymiadau gan ddisgyblion.

Amlygodd grwpiau ffocws eraill fod gwersi iechyd a llesiant yn aml yn cael eu defnyddio i ddysgu materion perthnasol, ond bod y rhain ddim yn cael eu gweld yn ddefnyddiol os nad ydyn nhw'n rhyngweithiol, h.y. os yw 'athrawon yn darllen PowerPoint yn unig', heb ddigon o gyfle i ofyn cwestiynau. Dywedodd eraill fod rhai gweithdai'n gallu bod yn 'lletchwith neu wedi dyddio oherwydd diffyg gwybodaeth athrawon'.

Rhannodd grŵp ffocws a gynhaliwyd ym Mhowys fod eu hysgol wedi creu posteri gwrth-hiliol yn proffilio actifyddion allweddol, ac fe gynhalion nhw gystadleuaeth posteri yn eu hysgol. Fe nodon nhw eu bod yn mwynhau'r gweithgaredd yma oherwydd eu bod yn gallu gwneud ymchwil eu hunain a defnyddio dulliau creadigol i rannu eu gwybodaeth.

Dywedodd rhai plant fod ysgolion ddim yn rhoi digon o gyfleoedd i ddysgu am amrywiaeth crefyddol.

*"Roedd rhaid i fy athro i 'frwydro' i gynnal gwasanaeth am Eid"*

Plentyn yn Abertawe

> *“Mae staff yn treio bod yn gefnogol ac eisiau cynnwys plant, ond does dim llawer o wybodaeth ganddyn nhw, ac maen nhw’n tueddu i ganolbwyntio ar hiliaeth cysylltiedig â lliw croen yn unig, ac anwybyddu’r ffaith bod hiliaeth yn ymwneud â chrefydd hefyd.”*
>
> Plant yn Abertawe

Rhannodd un grŵp o blant eu bod yn dysgu am Martin Luther King ac Anne Frank yn eu gwersi hanes, ond bod hynny bob amser yn cael ei gyfleu fel ‘hanes’, yn hytrach na rhywbeth sy’n berthnasol nawr. Ychwanegodd eraill fod sut maen nhw’n dysgu amdano yn rhoi’r argraff bod hiliaeth wedi’i ‘ddatrys’ nawr, ond eu bod nhw’n gwybod nad yw hynny’n wir. Fe wnaethon nhw rannu bod ‘Black Lives Matter/Mae Bywydau Du o Bwys’ wedi amlygu bod ‘hiliaeth yn digwydd yng Nghymru nawr’.

Cododd eraill bryderon ynghylch y testunau maen nhw’n eu darllen yn Saesneg. Rhannodd llawer o blant eu bod yn darllen ‘Of Mice and Men’ yn destun TGAU. Fe wnaethon nhw ddisgrifio mor anghyfforddus roedden nhw’n teimlo yn darllen iaith hiliol sarhaus. Rhannodd un grŵp ffocws o fyfyrwyr eu bod wedi ceisio newid y testun yn yr ysgol, ond wedi methu. Rhannodd plant o gefndir ethnig lleiafrifol eu bod nhw ddim yn hoffi darllen y llyfr oherwydd eu bod yn teimlo bod eu cyfoedion wedyn yn fwy cyfforddus yn defnyddio’r iaith sarhaus yma.

## Ymweliadau

Awgrymodd llawer o blant fod derbyn gwybodaeth yn allweddol, ond roedden nhw hefyd am gael mwy o wersi ymarferol ac ymweliadau ag adeiladau lleol â phwysigrwydd crefyddol a diwylliannol ac amgueddfeydd. Roedden nhw hefyd am i ysgolion wahodd elusennau ac arweinwyr i siarad â disgyblion, fel eu bod yn gallu clywed eu profiad bywyd, i wneud y pynciau yma’n fwy ‘real’. Fe wnaethon nhw ychwanegu eu bod yn teimlo iddyn nhw golli llawer o’r cyfleoedd yma oherwydd mesurau cyfnod clo Covid-19. Fe wnaethon nhw bwysleisio eu bod yn gyffrous ynghylch dysgu am y pynciau yma yn yr ysgol, ond ddim yn cael digon o gyfle i wneud hynny. Soniodd rhai am deithiau perthnasol i ddysgu am hanes amrywiol, ond pwysleisiwyd yr angen am sicrhau bod hynny’n trafod gwahanol gymunedau, ac yn cael ei gynnig i bob myfyriwr.

> *“Mae fy ysgol i yn cynnig taith i ddau fyfyriwr i Wersyll-Garchar Auschwitz, i ddysgu mwy am yr Holocost. Mae hynny’n wych, ond rydw i am weld mwy o gyfleoedd i ddysgu am hanes gwahanol gymunedau.”*
>
> Plentyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr

> *“Roedd y pwyllgor amrywiaeth eisiau trefnu taith ysgol gyfan i Amgueddfa Caerdydd oherwydd bod arddangosfa BLM yno, ond dim ond y pwyllgor amrywiaeth gafodd y cynnig gan yr ysgol. Doedd dim gwir angen hynny arnon ni, byddai wedi bod yn well i’r holl fyfyrwyr. Roedd hyn yn teimlo fel colli cyfle, gan y byddai’r ysgol ehangach wedi cael mwy o fudd.”*
>
> Plentyn ym Mro Morgannwg

## Dealltwriaeth athrawon eu hunain o amrywiaeth

Soniodd plant yn aml fod angen mwy o hyfforddiant i athrawon, ac fe ddywedson nhw eu bod am gael gwell hyfforddiant i athrawon a phenaethiaid, yn arbennig hyfforddiant gwrth-hiliaeth. Fe sonion nhw hefyd am yr angen i addysgu athrawon a staff ysgolion, fel eu bod yn gwybod am wahanol ddiwylliannau ac yna'n gallu teimlo mwy o empathi at ddioddefwyr hiliaeth.

Dywedodd plant y bydden nhw'n hoffi gweld athrawon mwy amrywiol eu cefndir ethnig, a fyddai'n deall gwahanol ddiwylliannau ethnig yn well, yn ogystal â chydymdeimlo'n fwy â'u profiadau o hiliaeth.


Rhannodd grŵp ffocws yn Sir Benfro fod y myfyrwyr, unwaith yr wythnos, yn canolbwyntio ar feysydd amrywiaeth gwahanol, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, fel arfer defnyddir llyfr gwaith rhagosod a gwersi PowerPoint i wneud hynny. Cododd y myfyrwyr fod yr wybodaeth a'r hyder sy'n cael eu datblygu wrth siarad am y pynciau hyn yn amrywio yn ôl pa mor wybodus yw'r athrawon amdanynt. Rhoddwyd enghreifftiau o athrawon oedd yn ennyn eu diddordeb wrth siarad am wahaniaethau diwylliant a hil, oedd fel arfer yn defnyddio ffilmiau a chaneuon yn rhan o'u gwersi, ac roedd hynny'n helpu'r myfyrwyr i deimlo ymgysylltiad.

At ei gilydd, rhannodd plant yn ein grwpiau ffocws fod y staff addysgu'n ceisio bod yn gynhwysol. Enghraifft o arfer da a rannwyd gan blant yn Sir Benfro yw 'cerdyn amser allan' sy'n gallu cael ei ddefnyddio i gael egwyl pan fydd myfyrwyr yn ymprydio yn ystod Ramadan. Roedd y plant yn gwerthfawrogi hyn yn fawr, ond yn gweld peth anghysondeb yn sut roedd gwahanol athrawon yn defnyddio'r cerdyn.

## Gwahaniaethau Rhanbarthol

Gellir gweld bod anghenion penodol mewn gwahanol ranbarthau mewn perthynas â dysgu am amrywiaeth. Tynnodd plant yn y Canolbarth sylw at y ffaith eu bod yn ymwybodol nad yw'r ardal lle maen nhw'n byw yn amrywiol iawn, a dyna pam roedden nhw wedi amlygu eu bod am gael mwy o ffyrdd o ddysgu am wahanol gymunedau. Mae'n werth nodi bod plant yn effro i'r ffaith y gallai plant o leiafrifoedd ethnig mewn ardaloedd lle na cheir llawer o amrywiaeth ethnig fod yn fwy ynysig fyth a chael profiad mwy poenus o hiliaeth oherwydd mai nhw yw'r 'unig un'.

Mewn cyferbyniad, pwysleisiodd plant yn Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd nad yw athrawon yn gwybod sut i ddelio â hiliaeth rhwng cymunedau ethnig lleiafrifol. Roedden nhw am weld sgiliau athrawon yn cael eu gwella yn y maes hwn.



# 07 BETH GLYWSON NI GAN ARWEINWYR YSGOLION AC ATHRAWON

**Fe wnaethon ni gynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb gydag arweinwyr ysgol ac athrawon o ddeg ysgol uwchradd ar draws wyth awdurdod lleol. Fe gynhalion ni arolwg hefyd, a gafodd ei gwblhau gan 12 o addysgwyr ar draws chwe awdurdod lleol.**

## Deall a diffinio hiliaeth

Doedd dim ateb cyson o ran sut mae ysgolion yn deall ac yn diffinio hiliaeth neu ddigwyddiad hiliol, ac roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod sicrhau diffiniad unigol neu a rennir yn her. Roedd rhai ysgolion yn diffinio digwyddiad hiliol fel digwyddiad roedd unrhyw aelod o gymuned yr ysgol yn ei chanfod fel un hiliol, tra bod eraill yn cynnig diffiniadau gwahanol, gan gynnwys 'gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd hil, crefydd neu genedl', 'gwahaniaethu neu ymddygiad amhriodol yn erbyn aelod arall o'r ysgol' neu 'unrhyw sylw sydd ag islais hiliol'.

Esboniodd un arweinydd ysgol fod dull gweithredu'r ysgol wedi newid dros amser, a bod y ffocws wedi newid o'r hyn mae staff yn barnu sy'n hiliol i'r hyn mae'r plentyn yn barnu sy'n hiliol. Dywedodd un arweinydd ysgol, er bod y staff yn deall arwyddocâd iaith hiliol sarhaus, y methir yn aml â sylwi ar hiliaeth fwy cynnil.

## Cofnodi digwyddiadau

Roedd ysgolion yn defnyddio gwahanol systemau i gofnodi digwyddiadau hiliol, gan gynnwys My Concern a SIMS. Nid oedd manylion sut defnyddir y systemau cofnodi hyn gan staff yn ffocws penodol i'n gwaith ymchwil, ond roedd atebion arweinyddion ysgol yn awgrymu dulliau gwahanol mewn gwahanol ysgolion. Er enghraifft, dywedodd un ysgol wrthyn ni mai penaethiaid blwyddyn ac arweinwyr diogelu yn unig ar hyn o bryd sy'n gallu defnyddio My Concern, ac felly nhw yw'r unig aelodau staff sy'n gallu cofnodi digwyddiadau. Dywedwyd eu bod yn newid hyn o fis Medi 2023, ac y bydd yr holl staff (gan gynnwys staff sydd ddim yn addysgu) yn gallu cael mynediad i'r system a chofnodi digwyddiadau. Defnyddiwyd y dull staff cyfan yma o gofnodi digwyddiadau mewn ysgol arall lle buon ni'n cyfweld.

Dywedodd un ysgol eu bod yn tracio digwyddiadau fel rhai 'honedig neu wedi'u cadarnhau' cyn ymchwilio ymhellach a phenderfynu ar y camau nesaf. Dywedodd ysgol arall fod unrhyw eiriau neu ystumiau hiliol sarhaus yn cael eu cofnodi ac yn derbyn sylw fel digwyddiad hiliol, beth bynnag yw canfyddiad y dioddefydd ohono.

## Canllawiau Presennol

Roedd gan arweinwyr ysgol amrywiaeth eang o safbwyntiau ynghylch safon ac eglurder canllawiau presennol Llywodraeth Cymru i'w helpu i ddelio â digwyddiadau hiliol, a'r brif enghraifft gyfredol o hyn yw 'Hawliau, Parch a Chydraddoldeb[27]', canllawiau gwrthfwlio Llywodraeth Cymru.

Roedd gan rai farn gadarnhaol ynghylch y canllawiau presennol, ac yn croesawu'r sôn penodol am nodweddion gwarchodedig yn y canllawiau gwrthfwlio. Roedd eraill yn galw am fwy o eglurder, canllawiau sy'n fwy ymarferol, a chanllawiau mwy penodol sy'n gysylltiedig â diwylliant gwrth-hiliol. Disgrifiodd un arweinydd ysgol y canllawiau presennol fel rhai 'niwlog iawn a heb eu cydlynu', gan esbonio'u barn bod y 'diffyg darlun cenedlaethol' a'r 'diffyg rhannu arfer gorau' yn dylanwadu ar effeithiolrwydd ysgolion wrth reoli hiliaeth.

Soniodd rhai ysgolion am gryfder polisïau mae'r ysgol yn eu harwain sy'n cynnwys cymuned yr ysgol, fel bod modd i staff a disgyblion ddatblygu a pherchnogi dulliau gweithredu.

Cyfeiriodd un athro at gynllun gweithredu gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru[28], gan ddweud ei bod yn ddogfen ddefnyddiol iawn, ond roedden nhw'n pryderu am y ffaith eu bod nhw'n credu mai nhw oedd yr unig aelod o staff yn yr ysgol oedd wedi ei darllen.

## Profiad o ddigwyddiadau hiliol

Soniodd y rhan fwyaf o ysgolion a ddisgrifiodd natur digwyddiadau hiliol nodweddiadol yn eu hysgol am iaith hiliol a sylwadau hiliol ymhlith disgyblion.

Awgrymodd rhai arweinwyr ysgol fod dealltwriaeth disgyblion o hanfod ymddygiad hiliol yn isel, gan gyfeirio'n aml at ddiffyg ymwybyddiaeth o ystyr a chyd-destun hanesyddol rhai geiriau.

Dywedodd un athro fod eu hysgol wedi sylwi ar batrwm o hiliaeth tuag at ferched. Nid oedd hynny oherwydd bod mwy o ferched na bechgyn o leiafrifoedd ethnig yn yr ysgol, ond oherwydd bod yr hiliaeth yn gymysg ag atgasedd at ferched (misogyny).

## Adrodd am hiliaeth

Soniodd rhai ysgolion am bwysigrwydd grymuso disgyblion i rannu eu profiadau ac i deimlo'n hyderus yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau, ochr yn ochr â chydnabod y rhwystrau.

Un mater penodol a amlygwyd oedd un cysylltiedig â phrofiad disgyblion mewn ysgolion lle nad oes llawer o amrywiaeth ethnig. Dywedodd un athro bod y ffaith mai nifer bach o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol sydd yn yr ysgol yn dylanwadu ar barodrwydd disgyblion i roi gwybod am ddigwyddiadau. Dywedson nhw fod y disgyblion o leiafrifoedd ethnig sy'n profi hiliaeth ddim eisiau tynnu mwy o sylw atynt eu hunain, eu bod nhw ddim eisiau 'ffys', ac y gall fod angen i staff roi sicrwydd iddyn nhw i'w helpu i sylweddoli nad 'gwneud ffys' yw rhoi gwybod am ddigwyddiad hiliol.

Dywedodd ysgol arall y gall disgyblion deimlo'n amharod i adrodd am ddigwyddiadau oherwydd eu bod nhw ddim eisiau 'i'r problemau waethygu'.

Dywedodd athro arall wrthyn ni fod disgyblion hŷn yn yr ysgol wedi codi digwyddiadau hiliol o'r gorffennol, nad oedden nhw wedi'u codi ar y pryd oherwydd eu bod nhw ddim mor gyfforddus yn gwneud hynny gydag athrawon. Roedd yr athro hefyd yn teimlo bod y diffyg hyder yma ynghylch rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn rheswm posibl am nifer isel y digwyddiadau a gofnodwyd gan yr ysgol.

## Delio â digwyddiadau

Soniodd y rhan fwyaf o ysgolion yn gadarnhaol iawn am addysgu cyflawnwyr fel rhan o ddull gweithredu adferol, ochr yn ochr ag unrhyw sancsiynau a dulliau gweithredu eraill, gan gynnwys gwaharddiadau ac ymateb amlasiantaeth, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad.

Dywedodd rhai ysgolion eu bod yn delio â hiliaeth fel digwyddiad diogelu, sy'n 'cydnabod y niwed' ac yn codi ymateb yr ysgol i lefel uwch.

## Cyfathrebu â dioddefwyr, cyflawnwyr, a rhieni/gofalwyr

Amlygodd rhai ysgolion bwysigrwydd cyfathrebu clir â'r rhai a fu'n ymwneud â'r digwyddiad. Roedd hynny'n golygu sicrhau bod y dioddefydd yn cael gwybodaeth ar hyd y broses, a chydlynu sgyrsiau gyda theuluoedd y naill a'r llall.

## Dull gweithredu enghreifftiol gan ysgol uwchradd

Anfonir llythyr at rieni'r cyflawnydd i ddweud am y digwyddiad, a bod y plentyn wedi cael cyfle dysgu gorfodol i ddysgu am niwed rhagfarn a hiliaeth, a sut gall yr ymddygiad yma achosi trallod.

## Contract gyda disgyblion

Yna anfonir 'contract' at y plentyn sy'n rhoi cyfle iddyn nhw fyfyrio ar y digwyddiad ac ystyried pa gamau gallan nhw eu cymryd nesaf. Yna caiff y ddogfen honno ei llofnodi, ac mae'n dod yn gytundeb rhwng y staff a'r disgybl, sy'n cytuno y byddan nhw'n gwybod eu bod yn cyflawni gweithred hiliol os byddan nhw'n ymddwyn yn yr un ffordd eto. Os bydd ail ddigwyddiad, byddan nhw'n cael cyfarfod gydag aelod o'r heddlu.

## Llais y dioddefydd

Anfonir llythyr at deulu'r dioddefydd i roi diweddariad iddyn nhw, ac i ofyn ydyn nhw'n fodlon ar y camau sy'n cael eu cymryd. Y dioddefydd sy'n penderfynu ydyn nhw am ddefnyddio cyfryngu neu beidio.

## Hyder Athrawon

Ychydig iawn o'r trafodaethau awgrymodd fod athrawon yn hyderus wrth ddelio â digwyddiadau hiliol. Ymhlith y sylwadau roedd athrawon yn pryderu am 'ddweud y peth anghywir' ac yn 'anghyfforddus gyda'r pwnc'. Dywedodd un arweinydd ysgol, er bod bwriadau athrawon yn dda, y gallan nhw fod yn anghyfforddus yn trafod hil, ac y gall hynny arwain at geisio 'tawelu'r dyfroedd'. Dywedwyd bod hynny'n achosi niwed trwy normaleiddio profiadau o hiliaeth a chreu rhwystrau i adrodd.

Clywson ni hefyd sut gall athrawon bryderu am 'dynnu sylw at ddisgyblion unigol' mewn trafodaethau am hiliaeth. Er enghraifft, os nad oes llawer o amrywiaeth mewn ysgol, gydag un disgybl o leiafrif ethnig mewn dosbarth efallai, soniodd rhai am geisio osgoi gwneud iddyn nhw deimlo'n anghyfforddus trwy drafod hiliaeth neu hanes cymunedau penodol.

Roedd rhai yn fwy cadarnhaol, gan awgrymu bod ffocws eu hysgolion ar y mater yma yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud athrawon yn fwy hyderus. Dywedodd un arweinydd ysgol fod athrawon yn gwbl hyderus yn delio â digwyddiadau, a bod meddu ar system a seiliwyd ar arweinyddiaeth gref ac ethos o adrodd am bob digwyddiad, hyd yn oed os ydyn nhw'n ansicr, wedi helpu.

## Hyfforddiant a chefnogaeth

Roedd yr angen am fwy o hyfforddiant, cefnogaeth ac adnoddau yn nodwedd cyffredin yn ein cyfweliadau gydag arweinwyr ysgol ac athrawon. Dywedodd un arweinydd ysgol wrthyn ni eu bod nhw heb gael hyfforddiant penodol ar hiliaeth erioed, er eu bod wedi addysgu ers 27 mlynedd. Yn yr un modd, soniodd arweinwyr ysgol eraill ac athrawon eu bod wedi derbyn ychydig iawn o gyfleoedd hyfforddi, os o gwbl. Ond fe glywson ni am hyfforddiant gwrth-hiliaeth parhaus yn cael ei gynnig i arweinwyr ysgol mewn un awdurdod lleol.

Gan mai ysgolion oedd yn dwyn y 'baich' o ganfod hyfforddiant, cododd rhai gost hyfforddiant allanol fel rhwystr, yn arbennig yng nghyd-destun cyllidebau cyfyngedig, a dywedodd un arweinydd ysgol y dylai cyllid gael ei neilltuo ar gyfer cyfleoedd hyfforddi. Teimlai un arweinydd ysgol fod 'deddfwriaeth wedi arwain yr ymateb yn y maes hwn heb hyfforddiant na dysgu, yn wahanol i faterion bugeiliol eraill.'

Gellid sicrhau mwy o gysondeb cenedlaethol petai rhaglen hyfforddi i ysgolion yng ngofal Llywodraeth Cymru, yn ôl un arweinydd ysgol. Fe ddywedson nhw fod 'pawb ar lefelau gwahanol', a bod 'rhai ysgolion yn gwneud dim' tra bod eraill yn 'gwneud llwyth o bethau', ac y dylai fod hyfforddiant cyffredin i bawb.

Soniodd rhai am faterion penodol y gallai hyfforddiant ac adnoddau eu targedu, gan gynnwys yr iaith y dylai athrawon ei defnyddio wrth ddelio â digwyddiadau hiliol. Awgrymodd un ysgol 'grynodeb un dudalen gan Lywodraeth Cymru' ar y mater yma. Cyfeiriodd

eraill at yr angen am adnoddau ychwanegol yn y dosbarth i helpu i addysgu ynghylch gwrth-hiliaeth, rhestr gymeradwy o destunau i'w defnyddio yn y dosbarth, y gall athrawon fod yn gwbl hyderus wrth eu defnyddio, a mwy o gyfleoedd i rannu a dod yn ymwybodol o enghreifftiau o arfer da o ysgolion eraill.

Y tu allan i'r cyfleoedd a'r adnoddau hyfforddi sefydlog, awgrymodd un arweinydd ysgol gefnogaeth fwy hyblyg ar ffurf 'seinfyrddau' yn yr awdurdod lleol, ac awgrymodd ysgol arall 'arweinydd' gwrth-hiliaeth a fyddai'n cael ei gyflogi gan yr awdurdod addysg lleol i gefnogi ysgolion gyda hiliaeth a digwyddiadau hiliol. Teimlai un ysgol y byddai gallu cyfeirio plant at asiantaethau o gymorth ar ôl iddynt arddangos ymddygiad hiliol dwfn neu atgas.

Dywedodd un ysgol fod angen 'cefnogaeth reolaidd' arnyn nhw yn hytrach na pholisïau a chanllawiau newydd, a disgwyl i ysgolion eu mabwysiadu'n effeithiol.

Roedd ysgolion a soniodd am ymwneud ac ymgysylltu â hyfforddiant DARPL (Dysgu Proffesiynol ynghylch Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth)[29] yn gadarnhaol iawn ynghylch eu profiadau at ei gilydd. Dywedodd un arweinydd ysgol fod hynny 'yn wir wedi arwain at newid', a bod yr hyfforddiant wedi effeithio arnyn nhw, a rhoi cyfle iddyn nhw glywed am brofiadau bywyd er mwyn creu newid. Dywedodd un nad oedd yn eglur ble mae cael hyd i wybodaeth i gefnogi gwaith gwrth-hiliaeth, y tu allan i DARPL.

## Heriau o ran newid diwylliant

Fe glywson ni fod cael amser cyfyngedig i sbarduno newid diwylliant yn yr ysgol yn broblem, a bod gwneud hynny yn gallu dibynnu'n aml ar angerdd aelodau unigol o staff.

Buon ni'n siarad ag un athro oedd wedi cael cais i archwilio lefel hyder ei chymheiriaid ar draws gwahanol adrannau a nodi bylchau o ran ymarfer gwrth-hiliol, ond ni roddwyd unrhyw amser ychwanegol iddi wneud hynny. Roedd hi'n teimlo ei bod yn cael ei dal yn ôl oherwydd bod dim amser priodol i'w neilltuo ar gyfer y dasg. Gofynnwyd i'r athro wneud y gwaith yma yng nghyd-destun ei rôl newydd yn yr ysgol, yn Bennaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth. Ond er gwaethaf y rôl newydd hon, roedd rhaid i'r athro ffitio'r dyletswyddau o amgylch amserlen addysgu oedd eisoes yn bodoli. Roedd hi'n teimlo bod hynny'n cyfleu neges waeth ynghylch lle'r rôl a'r gwaith ar restr blaenoriaethau'r ysgol.

Dywedodd un arweinydd ysgol fod gwrth-hiliaeth yn gallu teimlo fel ymarferiad 'ticio blychau' ar hyn o bryd, a bod rhoi diwylliant gwrth-hiliol ar waith yn briodol mewn ysgolion yn dibynnu ar arweinwyr ysgol sydd wedi buddsoddi yn y mater yma.

Soniodd rhai ysgolion am ddylanwad cartref neu gymuned plentyn fel her wrth greu newid diwylliant mewn ysgol. Teimlai un arweinydd ysgol fod 'angen gwaith gyda theuluoedd' i'w haddysgu am hiliaeth, a dywedodd un arall ei fod yn 'anodd iawn herio' beth mae rhieni'n ei gredu. Dywedodd un arall fod yr ysgol yn gallu gwneud llawer o waith gwrth-hiliol, ond 'os nad yw rhieni'n cefnogi'r newidiadau maen nhw'n brwydro yn erbyn y llanw'.

## Ethnigrwydd staff a llywodraethwyr ysgol

Dywedodd rhai ysgolion fod diffyg amrywiaeth ethnig ymhlith staff ysgolion a llywodraethwyr yn cyfrannu at 'fwlch' yn y ddealltwriaeth o brofiadau bywyd plant, ac yn effeithio ar sut mae athrawon yn cydnabod hiliaeth ac yn creu amgylchedd gwrth-hiliol. Dywedodd un arweinydd ysgol fod plant yn teimlo'n fwy cyfforddus yn adrodd am ymddygiad hiliol 'wrth bobl sy'n edrych yn debyg iddyn nhw'.

Dywedodd un arweinydd ysgol eu bod yn ystyried newid geiriad hysbysebion swyddi, yn unol â chyngor DARPL, i sicrhau mwy o amrywiaeth yn eu staff.

Bu nifer bach o ysgolion yn cwestiynu i ba raddau dylai diffyg amrywiaeth ethnig effeithio ar ymarfer. Dywedodd un arweinydd ysgol y dylai fod gan yr ysgol ethos gynhwysol, beth bynnag yw ethnigrwydd y staff, a dywedodd un arall y dylai 'amrywiaeth gael y lle amlycaf, beth bynnag yw cyfansoddiad y corff'.

Soniodd rhai ysgolion yn rhagweithiol am geisio sicrhau cyrff llywodraethu mwy amrywiol, ac amlygu'r angen am amrywiaeth eang o leisiau, gan gynnwys o blith rhieni.

Teimlai ysgol arall y gallai sefydlu partneriaethau gydag ysgolion oedd yn fwy amrywiol yn ethnig eu helpu i deimlo'n 'fwy parod' i ddelio â hiliaeth a bwlio hiliol.

## Rôl y cwricwlwm wrth greu amgylchedd gwrth-hiliol

Roedd arweinwyr ysgol ac athrawon yn rhoi pwys ar rôl cwricwlwm yr ysgol wrth greu amgylchedd gwrth-hiliol.

Dywedodd un arweinydd ysgol fod y newid yn y cwricwlwm wedi 'cael effaith aruthrol', gan fod ysgolion yn gallu gwreiddio amrywiaeth fel thema ar draws gwahanol wersi. Er enghraifft, gallai plentyn ddysgu am sut daeth Cymru'n wlad ethnig amrywiol mewn gwers hanes, ac yna defnyddio'r dysgu mewn dosbarth astudiaethau cyfryngu i greu darn creadigol yn archwilio'r pwnc. Soniodd ysgolion hefyd fod disgyblion yn cwblhau cymwysterau cydraddoldeb ac amrywiaeth penodol.

Fe glywson ni hefyd sut roedd rhai ysgolion wedi gweithio gydag aelodau o'u cymunedau lleol, er enghraifft, artistiaid lleol, i adrodd eu hanesion wrth ddisgyblion a'u helpu i archwilio amrywiaeth diwylliannol.

Roedd dewis testunau effeithiol ac addas hefyd yn ffactor pwysig i ysgolion. Soniodd llawer am sut roedd testunau penodol yn helpu disgyblion i archwilio'r pwnc a dathlu gwahaniaethau.

Nododd rhai ysgolion ei bod yn haws trin deunyddiau a dysgu'n hyblyg yng Nghyfnod Allweddol 3, a bod hynny'n anoddach yng Nghyfnod Allweddol 4 oherwydd bod nifer cyfyngedig o ddeunyddiau arholiad ac opsiynau.

Y nofel 'Of Mice and Men', sy'n dyddio o 1937, oedd y testun a drafodwyd amlaf yn ein cyfweliadau ymchwil. Dywedodd rhai arweinwyr ysgol ac athrawon eu bod wedi ystyried priodoldeb y testun penodol yma yn y dosbarth, yn arbennig oherwydd y defnydd a wneir ynddo o iaith hiliol sarhaus ac effaith hynny ar bobl ifanc, yn enwedig o leiafrifoedd ethnig. Mewn rhai ysgolion, roedd y drafodaeth fewnol ar y testun, ac mewn rhai achosion ymgynghori â disgyblion, wedi golygu eu bod yn rhoi'r gorau i'w ddysgu fel rhan o'r cwricwlwm TGAU.

Disgrifiodd ysgolion hefyd rwystrau i ollwng y testun. Fel testun hirsefydlog, byr, y mae athrawon yn gyfarwydd iawn ag ef, fe glywson ni fod 'Of Mice and Men' yn gymharol hawdd ei addysgu, ac yn destun lle maen nhw'n hyderus y bydd y disgyblion yn cael marciau da. Soniwyd am lwyth gwaith athrawon fel ffactor yn y cyd-destun yma. Nid oedd opsiynau eraill CBAC yn cael eu hystyried mor ffafriol o ran hwylustod ac effeithlonrwydd addysgu. Barn un athro oedd eu bod wedi gweld effaith gadarnhaol gwaith CBAC yn amrywio rhai meysydd dysgu, ond nad oedd Saesneg 'mewn gwirionedd yn cyrraedd y nod.'

## Cynnydd yn nifer yr adroddiadau

Dywedodd un arweinydd ysgol wrthyn ni fod gwaith gwrth-hiliol effeithiol yn yr ysgol wedi arwain at ddyblu'r digwyddiadau hiliol a gofnodwyd. Eu barn oedd bod union nifer yr achosion yn annhebygol o fod wedi newid yn sylweddol, ond eu bod yn gweld manteision cynnydd yn hyder staff wrth ddelio ag achosion a hyder disgyblion wrth adrodd amdanynt.

Yn yr un modd, dywedodd athro wrthyn ni sut roedd amrywiadau yn hyder athrawon ar draws eu hysgol o bosibl yn cyfrannu at wahanol gyfraddau adrodd. Dywedson nhw, os oedd penaethiaid blwyddyn yn hyderus ac yn llafar yn herio hiliaeth ac yn cael eu gweld yn taclo digwyddiadau'n effeithiol, fod lefelau adrodd yn uchel, sy'n awgrymu bod gan ddisgyblion fwy o hyder yn y broses. Nid oedd penaethiaid blwyddyn eraill mor ymddangosiadol hyderus yn ymdrin â materion a digwyddiadau, ac roedd y lefelau adrodd yn y grwpiau blwyddyn hynny yn is.

## Rôl Estyn

Trafododd rhai ysgolion rôl Estyn yn y cyd-destun hwn.

Teimlai un arweinydd ysgol fod perygl, wrth i adroddiadau gynyddu, y gallai Estyn labelu'r ysgol fel un â 'phroblem hiliol', er gwaethaf y ffaith bod cynnydd yn nifer yr adroddiadau yn dangos bod myfyrwyr yn teimlo'n fwy hyderus a chyfforddus yn sôn am ddigwyddiadau wrth eu hathrawon.

Teimlai arweinydd ysgol arall y dylai Estyn wneud mwy i bwysleisio pwysigrwydd diwylliant yr ysgol a helpu ysgolion i 'flaenoriaethu'r pethau cywir'.

Roedd athro arall eisiau 'mwy o atebolrwydd' i ysgolion ar y mater yma; roedd yn aneglur iddyn nhw sut byddai'r mater yma'n derbyn sylw mewn arolygiadau. Roedden nhw'n teimlo, oni bai ei fod yn derbyn sylw priodol, bod risg y gallai gael ei anwybyddu fel problem.

# 08 BETH GLYWSON NI GAN OEDOLION SY'N RHANDDEILIAID ALLWEDDOL

**Fe wnaethon ni ysgrifennu at ystod eang o sefydliadau i'w gwahodd i rannu eu barn a'u profiadau trwy gyfweliadau ar-lein.**

Roedd y sefydliadau a fu'n cymryd rhan yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau lleol
- Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
- Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- EYST
- Estyn
- Consortia Addysg

Wrth ddisgrifio dull cyfredol ysgolion o ddelio â hiliaeth a digwyddiadau hiliol, a phroblem hiliaeth mewn ysgolion yn gyffredinol, daeth rhai themâu cyffredin i'r amlwg:

## Digwyddiadau Hiliol

Roedd mwyafrif y bobl a gafodd eu cyfweld yn cydnabod bod hiliaeth yn realiti mewn ysgolion, ac yn rhoi enghreifftiau gan gynnwys bwlio hiliaeth yn yr ysgol a'r tu allan, ac achosion o hiliaeth geiriol a chorfforol, gan gynnwys taflu cerrig, galw enwau a gwneud 'jôcs'.

O ran adrodd am ddigwyddiadau hiliol a'u cofnodi, roedd consensws clir bod diffyg eglurder ar hyn o bryd ynghylch beth sy'n cyfrif fel digwyddiad hiliol neu fwlio hiliol, a hefyd ynghylch y broses adrodd a chofnodi.

## Rhwystrau i adrodd a chofnodi

Teimlai'r cyfweleion fod y rhwystrau i gofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau hiliol gan athrawon yn cynnwys ofn niweidio enw da'r ysgol, ofni sôn wrth uwch-dimau rheoli am ddigwyddiadau, ac weithiau, awydd i 'sgubo fe [hiliaeth] dan y carped'.

## Hyfforddiant

Teimlai rhai gafodd eu cyfweld fod angen mwy o offer ymarferol, hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi ysgolion i ymateb i hiliaeth a digwyddiadau hiliol, yn ogystal â hyfforddiant ehangach ar wrth-hiliaeth ac ymateb i ddigwyddiadau hiliol ar gyfer holl gymuned yr ysgol.

Soniodd llawer am yr amrywiadau presennol o ran mynediad at hyfforddiant, a gwahaniaethau yn sut mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn ariannu hyfforddiant o'r fath, gyda rhai yn unig yn cael mynediad at sesiynau untro. Amlygodd rhai cyfweleion y ffaith mai dim ond yn Saesneg roedd rhai adnoddau hyfforddi ar gael, a phwysleisio y dylai'r rhain fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Canllawiau Cenedlaethol a Pholisi a Hiliaeth

Bu cyfweleion yn myfyrio ar y darlun cenedlaethol cyfredol a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb i hiliaeth a digwyddiadau hiliol mewn ysgolion. Soniodd llawer o ymatebwyr yn gadarnhaol am ymrwymiad newydd Llywodraeth Cymru i amrywiaeth yn y cwricwlwm, a ategwyd trwy adroddiad Cynefin[30] yr Athro Charlotte Williams, a Chynllun Cymru Wrth-Hiliol.

Fodd bynnag, ym marn y rhan fwyaf o randdeiliaid, roedd canllawiau Gwrthfwlio cyfredol Llywodraeth Cymru, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb' yn rhy 'niwlog' a chyffredinol, a heb fod o gymorth mawr i ddelio â digwyddiadau hiliol. Gwnaeth un rhanddeiliad y sylw y bydd *"gan 22 ALl ddehongliadau gwahanol o'r canllawiau hyn"*. Soniodd llawer hefyd am anhawster gwahaniaethu rhwng bwlio a hiliaeth, gydag un rhanddeiliad yn dweud: *"Mae'n anodd diffinio'r tir niwlog rhwng bwlio a hiliaeth"*.

Soniodd rhai am eu gobaith y byddai adolygiad arfaethedig o'r canllawiau hyn yn canolbwyntio mwy ar daclo hiliaeth a bwlio arall ar sail rhagfarnau, a hefyd ar lais y plentyn.

Teimlai eraill fod gormod o ganllawiau a fframweithiau eisoes i ysgolion ac athrawon sydd 'o dan ormod o bwysau', ac felly doedden nhw ddim am weld rhagor o ganllawiau. Yn hytrach, roedden nhw am weld mwy o ymwybyddiaeth a chefnogaeth i gymhwyso'r canllawiau presennol. *"Mae'r holl ganllawiau a fframweithiau sydd ar gael yn llethu ysgolion. Does dim digon o amser i'w darllen"*.

Soniodd rhai hefyd am fodolaeth ffynonellau cyngor a dysgu proffesiynol eraill i ysgolion, fel yr hyfforddiant a'r adnoddau mae DARPL a Rhwydwaith BAME ED yn eu cynnig, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chyrff trydydd sector fel Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ac EYST. Fodd bynnag, soniodd rhai, gan nad yw'r rhain yn ganllawiau statudol, nad yw athrawon o reidrwydd yn ymwybodol ohonyn nhw.

## Diffyg Data Cenedlaethol am Hiliaeth

Roedd y rhan fwyaf o gyfweleion yn cytuno bod diffyg data clir ynghylch hiliaeth a digwyddiadau hiliol mewn ysgolion, yn ogystal â diffyg eglurder ynghylch pa fecanweithiau adrodd a chofnodi oedd yn ofynnol gan ysgolion a/neu awdurdodau lleol. Buon ni'n clywed hefyd am anghysondebau yn sut roedd gwahanol ysgolion ac awdurdodau lleol yn cofnodi ac yn rhannu data ynghylch digwyddiadau hiliol, oedd yn golygu bod ysgolion ac awdurdodau lleol o bosib yn colli cyfleoedd i sylwi ar batrymau a themâu a theilwra ymatebion priodol.

Nodwyd hefyd nad oes mecanwaith cofnodi cenedlaethol cyfredol ar gyfer digwyddiadau hiliol, felly nid yw'n eglur beth sy'n digwydd i unrhyw ddata y gall awdurdodau lleol ei gasglu. Ymhellach, roedd dryswch ynghylch rôl gyfredol Llywodraeth Cymru a'u cylch gorchwyl o ran casglu data o'r fath, yn ogystal â'r gofynion i ysgolion ac awdurdodau lleol ei rannu.

Cafwyd cyfeiriadau helaeth at yr angen am gefnogi awdurdodau lleol i wella'u systemau adrodd a chofnodi a chytuno ar un system genedlaethol. Nodwyd hefyd absenoldeb strwythurau lleol a chenedlaethol ar hyn o bryd ar gyfer rhannu arfer da ymhlith ysgolion.

Gwelwyd bod y diffyg data clir ar hyn o bryd yn cyfrannu at ddiffyg atebolrwydd, a gwelwyd bod rhoi sylw i hynny yn gam gofynnol amlwg er mwyn cyflawni nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

## Y Gweithlu

Thema arall oedd y diffyg amrywiaeth yn y gweithlu addysgu. Teimlai cyfweleion fod hyn yn cael effaith ar allu ysgol i ymateb yn effeithiol i hiliaeth mewn sawl ffordd. Teimlai cyfweleion fod diffyg amrywiaeth yn cyfrannu at ddiffyg hyder ymhlith athrawon, a lefelau is o ddealltwriaeth a mewnwelediad i effaith hiliaeth ar blant a phobl ifanc yn yr ysgol. Bu rhai cyfweleion hefyd yn rhannu enghreifftiau o sylwadau oedd yn anymwybodol hiliol a stereoteipio diwylliannol gan staff ysgol, a drysu rhwng plant o gefndir ethnig tebyg. Teimlai rhai fod angen dysgu a chefnogaeth parhaus ar staff presennol, ochr yn ochr ag ymdrechion i amrywio'r gweithlu.

## Y Cwricwlwm

Cyfeiriodd cyfweleion yn aml at y ffocws cynyddol ar gynhwysiad yn y cwricwlwm ysgol, yn arbennig y cwricwlwm newydd, gan gynnwys y dyletswyddau newydd i addysgu hawliau plant a dathlu amrywiaeth. Soniwyd hefyd am y ffocws cynyddol mewn ysgolion ar ddathlu ystod eang o ddiwylliannau, a dathliadau crefyddol.

## Enghreifftiau o arfer da

Rhannwyd hefyd rai enghreifftiau o arfer da o ran sut roedd ysgolion yn rheoli hiliaeth. Er enghraifft, yng Nghaerdydd, anogir pob ysgol i ddod yn 'Ysgolion Noddfa' – mae hynny'n golygu cwblhau hyfforddiant penodol sy'n cyflwyno'r canllawiau gwrthfwlio a pheth hyfforddiant ar wrth-hiliaeth, gyda ffocws penodol ar groesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Fe glywson ni hefyd am enghreifftiau o ysgolion yn gweithio'n agored ac yn rhagweithiol gydag Awdurdodau Lleol i ddelio â hiliaeth a digwyddiadau hiliol ac ymateb iddynt. Amlygodd llawer o randdeiliaid hefyd ysgolion oedd yn rhagweithiol yn estyn allan ac yn manteisio ar arbenigedd asiantaethau allanol megis Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a DARPL, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion ac athrawon.

## Cysylltu â'r gymuned

Thema arall oedd pwysigrwydd cysylltiadau rhwng ysgolion a'r gymuned ehangach, gyda pherthnasoedd a chysylltiadau da tu allan i'r ysgol yn cael eu gweld fel rhywbeth oedd yn helpu i gryfhau ymatebion ysgolion i ddigwyddiadau. Soniodd rhai fod ysgolion sydd â chysylltiadau da yn y gymuned ehangach yn gallu rhoi cymorth defnyddiol wrth integreiddio teuluoedd o ffoaduriaid.

# 09 CASGLIADAU

Galluogi Adrodd

Cymryd Hiliaeth o Ddifri

Addysgu pob myfyriwr

Addysgu Athrawon

Cefnogi dioddefwyr

Delio gyda chyflawnwyr

**Mae'r lleisiau a gasglwyd yn yr adroddiad yma wedi rhoi cipolwg digysur i ni ar sut ac i ba raddau mae plant a phobl ifanc yn profi hiliaeth a digwyddiadau hiliol mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru.**

Rydyn ni wedi clywed gan blant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig ar draws Cymru eu bod yn profi hiliaeth mewn llawer o ffyrdd, o ficro-ymosodedd i gam-drin geiriol a chorfforol, ac ar waelod y raddfa, bod y profiad hwnnw bron yn rhan normal o'u bywydau.

Rydyn ni hefyd wedi clywed am lawer o resymau, gyda phrofiadau personol yn eu hegluro, pam na fydd dysgwyr o reidrwydd yn adrodd am ddigwyddiadau hiliol, gan gynnwys: normaleiddio hiliaeth, methu gwybod beth i'w ddisgwyl os byddan nhw'n rhoi gwybod amdano; ofn y gallai'r broses eu llethu'n emosiynol a bod yn llafurus; a pheidio â disgwyl bydd llawer yn digwydd beth bynnag. Mae hynny'n golygu, at ei gilydd, fod dadansoddiad cost-budd yn golygu, fel arfer, na welir digwyddiadau hiliol fel rhywbeth mae'n werth rhoi gwybod amdano. Mae hynny'n awgrymu bod yr achosion yr adroddir amdanynt mewn gwirionedd yn frig gweladwy mynydd iâ anferth.

Fe glywson ni gan athrawon a phenaethiaid eu bod yn ymwybodol o'r broblem, ac yn profi, clywed a thystio i hiliaeth yn eu hysgolion a'u hystafelloedd dosbarth. Mewn ysgolion sydd â lefelau is o amrywiaeth ethnig, mae athrawon yn cydnabod y gall profiad 'y disgybl ynysig' fod yn fwy aciwt ac anodd fyth, ac y gall argyhoeddi pobl o berthnasedd hiliaeth fod yn her mewn ardaloedd sy'n llai amrywiol yn ethnig.

At ei gilydd, adroddodd athrawon nad ydynt yn teimlo'n barod nac yn hyderus i ymateb i hiliaeth. Bydden nhw'n hoffi cael arweiniad mwy ymarferol a chliriach, yn ogystal â chefnogaeth barhaus ynghylch sut dylen nhw ymateb i'r broblem hon wrth iddi esblygu. Mae'n eglur bod hiliaeth, fel cymdeithas, yn newid yn barhaus, ac un her amlwg y tynnodd addysgwyr sylw ati oedd cadw i fyny â'r derminoleg, sy'n newid mor gyflym, a gwybod beth sy'n dderbyniol neu beidio.

Oherwydd natur wirfoddol cyfranogiad yn ein hastudiaeth, mae'n debygol mai'r addysgwyr y clywson ni ganddyn nhw oedd y rhai oedd eisoes wedi ymgysylltu fwyaf â'r pwnc hwn, ac felly efallai na fydd lefelau dealltwriaeth ac ymgysylltiad yr un mor uchel ym mhob ysgol. Gan blant a phobl ifanc, fe glywson ni alwadau cryf ar y cyfan i ysgolion

gymryd hiliaeth yn fwy o ddifri, i fwy o hyfforddiant gael ei ddarparu i athrawon ddysgu am hiliaeth ac amrywiaeth, a bod ysgolion yn gwneud mwy i addysgu pob plentyn a pherson ifanc am hiliaeth, i'w atal rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Roedd y rhanddeiliaid ehangach y buon ni'n siarad â nhw yn cytuno â'r plant a'r bobl ifanc a'r athrawon bod hiliaeth mewn ysgolion yn broblem ddifrifol oedd ar led. Roedden nhw hefyd yn cytuno bod modd gwneud mwy i wella'r hyfforddiant i addysgwyr, ynghylch yr angen am gryfhau canllawiau a chasglu mwy o ddata cenedlaethol ynghylch digwyddiadau hiliol, a darparu mwy o gefnogaeth i ysgolion ymateb i'r mater yma.

**Mae'r negeseuon cyffredinol yn atseinio'n glir, ac felly rydyn ni'n cyflwyno'r argymhellion canlynol ar gyfer mynd i'r afael â hiliaeth a'i daclo, a gwella'r ymateb i ddigwyddiadau hiliol mewn ysgolion uwchradd:**

# Argymhellion

## Ymateb cryfach i Hiliaeth a Digwyddiadau Hiliol mewn ysgolion

1. Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurhad yn y canllawiau gwrthfwlio diwygiedig sydd ar ddod sut mae'n disgwyl i ysgolion ymateb i ddigwyddiadau hiliol, eu cofnodi, ac ymdrin â nhw.
2. Dylai Llywodraeth Cymru greu canllawiau atodol i nodi'n glir beth yw'r disgwyliadau o ran ymateb ysgol ehangach i hiliaeth, yn unol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ARWAP), gan egluro perthnasedd hynny i bob ysgol, nid dim ond y rhai sy'n fwy ethnig amrywiol.
3. Dylai Consortia Gwella Ysgolion Cymru ddatblygu rôl 'pencampwr gwrth-hiliaeth' a grwpiau llywio sy'n cynnwys pobl a sefydliadau â phrofiad bywyd i gefnogi ysgolion i ddiwygio polisïau, gan ymateb i ddigwyddiadau a chodi lefel sgiliau staff ar y pwnc yma, yn ogystal â chynnig cyngor uniongyrchol i ysgolion ar faterion byw. Dylai'r rolau hyn gael eu cysylltu â Chydlynwyr Rhanbarthol arfaethedig ARWAP Llywodraeth Cymru.
4. Dylai ysgolion, Awdurdodau Lleol ac Estyn sicrhau bod ganddyn nhw bolisi clir ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau hiliol, a bod hynny'n rhan o bob Cynllun Gwella Ysgol. Dylai hynny gael ei ddatblygu gyda mewnbwn gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad bywyd o hiliaeth yng nghymuned yr ysgol, neu gan ddefnyddio rhanddeiliaid ar draws Cymru yn achos cymunedau llai amrywiol.
5. Dylai polisïau ysgol ar ymateb i ddigwyddiadau hiliol gael eu cyfleu i bob disgybl mewn modd hygyrch a hwylus i blant a phobl ifanc, er mwyn cefnogi dysgu a datblygu diwylliant gwrth-hiliol yn yr ysgol.
6. Dylai polisïau ysgol ar ymateb i ddigwyddiadau hiliol fod yn eglur ynghylch beth sy'n digwydd i'r person sy'n adrodd, a'r person yr honnir iddynt fod yn hiliol, a dylai gynnwys adran ar ddarparu mecanweithiau adborth rheolaidd, amserol a sensitif i bawb a fu'n ymwneud â'r digwyddiad ac y bu'n effeithio arnyn nhw.
7. Dylai polisïau ysgol ar ymateb i ddigwyddiadau hiliol gynnwys adran hefyd ar sut byddan nhw'n rhannu unrhyw ddysgu a chamau gweithredu sy'n deillio o ddigwyddiadau gyda chymuned ehangach yr ysgol.
8. Yn ei chanllawiau gwrthfwlio diwygiedig, dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i ysgolion ddelio â digwyddiadau hiliol a'u cofnodi fel rhai cyfatebol i ddigwyddiadau diogelu, gan sicrhau bod systemau ysgol a rhai rhanbarthol ar gyfer mynegi pryderon yn weladwy ac yn hygyrch.

# Mae angen mwy o hyfforddiant a chefnogaeth i'r ysgol gyfan ar ddeall hiliaeth ac ymateb i ddigwyddiadau hiliol

9. Dylai hyfforddiant am hiliaeth a gwrth-hiliaeth ac adnabod ac ymateb i ddigwyddiadau hiliol fod yn orfodol i'r holl arweinwyr addysg, athrawon a staff cefnogi, a chael ei adnewyddu o leiaf bob 3 blynedd, yn debyg i hyfforddiant diogelu. Er mwyn sicrhau safon a chysondeb, dylid cydlynu hyn trwy rwydwaith DARPL, a ariannir gan Lywodraeth Cymru, a'i gysylltu â gwaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL).
10. Dylid datblygu mwy o adnoddau hyfforddi a dysgu proffesiynol sy'n cwmpasu gwahanol fathau o hiliaeth sy'n amlwg yng Nghymru, gan gynnwys hiliaeth ar sail ffydd (yn arbennig Islamoffobia a gwrth-Semitiaeth), hiliaeth yn erbyn Ewropeaid gwyn, hiliaeth yn erbyn cymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma, a hiliaeth yn erbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
11. Dylai Llywodraeth Cyru ddiweddaru eu canllawiau i lywodraethwyr ysgol i wneud hyfforddiant ymwybyddiaeth hil ac adnabod ac ymateb i hiliaeth a digwyddiadau hiliol yn orfodol i bob llywodraethwr fel rhan o'u cyfnod sefydlu. Dylid cyflwyno'r hyfforddiant yma trwy Awdurdodau Lleol.
12. Dylai Cyrff Llywodraethu Ysgolion benodi arweinydd gwrth-hiliaeth (fel rhan o'r rôl Tegwch ac Amrywiaeth i Lywodraethwyr, a gyflwynwyd yn ddiweddar), i gefnogi a herio ysgolion wrth ddiwygio polisïau, ymateb i ddigwyddiadau a chodi lefel sgiliau staff yn y maes yma. Dylai'r arweinydd yma gyflawni dysgu proffesiynol estynedig.
13. Dylid ystyried gwaith parhaus i gefnogi llywodraethwyr ysgol i gynyddu eu llythrennedd hil, gan adeiladu ar ganfyddiadau adolygiad thematig Estyn o Lywodraethwyr Ysgol[31] ac ymgorffori gwaith sy'n mynd rhagddo gydag NAEL i gefnogi Llywodraethwyr, yn ogystal â DARPL.
14. Dylai Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol weithio gydag arbenigwyr yn y maes a'r rhai sydd â phrofiad bywyd i ddatblygu a chyflwyno adnoddau hyfforddi a dysgu proffesiynol. Hefyd dylent helpu i gydlynu ac ymgysylltu â sefydliadau cymunedol ac unigolion sydd ag arbenigedd ym maes hiliaeth a gwrth-hiliaeth, a dylent helpu i hwyluso rhannu arfer da sy'n dod i'r amlwg. Dylai'r gwaith yma gael ei gefnogi gan Gydlynwyr Rhanbarthol ARWAP a gynigir gan Lywodraeth Cymru.
15. Dylai fod lle penodol ar Hwb i athrawon gael gwybodaeth am hiliaeth a gwrth-hiliaeth, gan gynnwys adnoddau gwrth-hiliol, coladu cwestiynau cyffredin, a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys ynghylch terminoleg.
16. Yn unol â'r Cwricwlwm Newydd i Gymru, gdylai plant a phobl ifanc gael mynediad at gyfleoedd rheolaidd, effeithiol i ddysgu am hil ac amrywiaeth, gan gynnwys dysgu trwy brofiad ar ffurf ymweliadau a darparwyr allanol sydd wedi profi hiliaeth yn eu bywydau. Byddai hyn yn ategu ac yn cyd-fynd a'r cwricwlwm ysgol amrywiol.

## Yr angen am Ddata Cenedlaethol ar hiliaeth mewn ysgolion

17. Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen ar frys gyda'r gwaith a gynlluniwyd i ddatblygu system Cymru gyfan o gofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau hiliol mewn ysgolion, gan sicrhau bod sylfaen gyfreithiol ar gyfer casglu'r data yma, ac egluro gwahanol rolau a chyfrifoldebau ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff eraill o fewn y system yma.

18. Dylai'r gwaith yma gan Lywodraeth Cymru gynnwys gweithio gydag ysgolion i gytuno ar ddiffiniadau clir, ymarferol o hiliaeth a digwyddiadau hiliol, fel bod modd casglu data cyson ac ystyrlon.

## Arall

19. Dylai CBAC roi blaenoriaeth i sicrhau cynnydd yn y gwaith sydd eisoes yn digwydd gyda DARPL i adolygu a diwygio rhestrau testunau yn y meysydd llafur sy'n cynnwys iaith hiliol, gan gydnabod effaith hynny ar ddysgwyr ac amgylchedd/diwylliant yr ysgol.

20. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i Estyn ddiwygio'u Fframwaith Arolygu Cyffredin er mwyn sicrhau ffocws mwy pendant ar sut mae ysgolion yn ymateb i ddigwyddiadau hiliol, yn eu cofnodi ac yn ymdrin â nhw, gan sicrhau bod llais a barn disgyblion ar hyn yn cael eu clywed trwy eu harolygiadau.

21. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Estyn i gynnal adolygiad arfer da i ganfod arfer da sydd eisoes yn bodoli wrth ymateb i hiliaeth a digwyddiadau hiliol ymhlith ysgolion.

22. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tasglu sy'n cynnwys cynrychiolwyr addysg, diogelwch cymunedol a chyfiawnder ieuenctid i archwilio a datblygu ymyriadau priodol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n mynegi barn neu ymddygiad sy'n camwahaniaethu.

# Atodiadau

## Atodiad 1: Cyfranogwyr y Grwpiau Ffocws

| Rhanbarth | Ardal | Cyfansoddiad y grŵp | Y Math o Grŵp Ffocws | Nifer y Plant a fu'n Cyfranogi |
|---|---|---|---|---|
| De-ddwyrain Cymru | Caerdydd | Ysgol uwchradd – yr holl gyfranogwyr o gefndiroedd amrywiol. | Wyneb yn wyneb | 7 |
| | Bro Morgannwg | Ysgol uwchradd – yr holl gyfranogwyr o gefndiroedd amrywiol. | Wyneb yn wyneb | 10 |
| | Caerdydd | Ysgol uwchradd – cyfuniad o gyfranogwyr o gefndiroedd amrywiol a rhai Gwyn Cymreig. | Wyneb yn wyneb | 29 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol uwchradd – cyfuniad o gyfranogwyr o gefndiroedd amrywiol a rhai Gwyn Cymreig. | Wyneb yn wyneb | 7 |
| De-orllewin Cymru | Abertawe | Clwb ieuenctid – bechgyn i gyd, o gymunedau ethnig lleiafrifol. | Wyneb yn wyneb | 12 |
| | Sir Benfro | Fforwm Ieuenctid – Gwyn Cymreig yn bennaf. | Wyneb yn wyneb | 10 |
| | Sir Benfro | Ysgol uwchradd – Gwyn Cymreig yn bennaf, 4 plentyn hil gymysg. | Wyneb yn wyneb | 21 |
| | Sir Benfro | Clwb ieuenctid mewn mosg – yr holl blant o gefndir Mwslimaidd, a chefndir Arabaidd a De Asia (Bangladeshi gan mwyaf). | Wyneb yn wyneb | 13 |
| | Abertawe | Clwb ieuenctid – merched i gyd, o gefndir Rwmanaidd, Pwylaidd, De Asia ac Arabaidd. | Wyneb yn wyneb | 12 |
| Canolbarth Cymru | Powys | Myfyrwyr gwyn Cymreig gan mwyaf, roedd 4 o'r myfyrwyr o gefndir ethnig lleiafrifol (Almaenig, Pwylaidd, Gwyddelig, Eidalaidd). | Wyneb yn wyneb | 10 |
| | Powys | Ysgol uwchradd â phoblogaeth nad yw'n amrywiol. | Wyneb yn wyneb | 10 |
| | Powys | Ysgol uwchradd â phoblogaeth nad yw'n amrywiol. | Wyneb yn wyneb | 17 |
| Gogledd Cymru | Wrecsam | Cynhaliwyd y grŵp ffocws gyda myfyrwyr sy'n ymwneud â'r swyddogion Cynhwysiad; mae rhai o'r myfyrwyr o gymunedau Teithwyr, wedi mudo i Gymru, ac mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw. | Wyneb yn wyneb | 8 |
| | Sir Ddinbych | Cynhaliwyd y grŵp ffocws gyda'r pwyllgor amrywiaeth, grŵp sy'n canolbwyntio ar herio camwahaniaethu. Mae'r grŵp yn cynnwys myfyrwyr blwyddyn 11, sy'n uwchsgilio plant iau er mwyn i'r gwaith barhau. | Ar-lein | 4 |
| **Cyfanswm** | | | | **170** |

Cynllun y Sesiynau Grwpiau Ffocws Plant a Phobl Ifanc:

| **Gweithgaredd** | **Adnodd/Offer** |
|---|---|
| **Cyflwyniadau:**<br>Defnyddiwch y sgript uchod i gyflwyno'r sesiwn. | Labeli enw, peniau, ac mae gan bob cyfranogwr holiadur ar eu cadair i'w ateb yn ysgrifenedig.<br>Bydd 'fidget', peniau lliwio a phapur ar gyfer dwdlo wedi'u darparu, yn ogystal â bwrdd synhwyrau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc.<br>Darn mawr o bapur – maes parcio ar gyfer syniadau a meddyliau.<br>Nodiadau gludiog.<br>Poster o Rocio a Hawliau Plant<br>Cerdyn – Erthyglau 2, 12, 16, 19, 31 |
| **Torri'r iâ:**<br>Cyflwynwch eich hun a'ch hoff fisged | |
| **Cwestiwn i'r Grŵp Ffocws:**<br>**Beth mae hiliaeth yn ei olygu i chi?**<br>**Beth mae gwrth-hiliaeth yn ei olygu i chi?** | Defnyddiwch y fflipsiart i greu amlinelliad o gorff person/person sinsir. Rhowch nodiadau gludiog i'r cyfranogwyr ateb y cwestiwn yma a'i labelu'n briodol. |
| **Cwestiwn i'r Grŵp Ffocws:**<br>**Soniwch wrthyn ni am sut mae eich ysgol yn dysgu am wahaniaethau diwylliant, hil a chymuned?**<br>Awgrym: sut byddech chi'n hoffi dysgu am hyn? | |
| **Cwestiwn i'r Grŵp Ffocws:**<br>**Mae gan lawer o ysgolion weithdai addysgol sy'n canolbwyntio ar drafod hiliaeth – beth yw effaith hynny yn eich barn chi?**<br>Awgrym: Dosbarthiadau ABChI, Astudiaethau crefyddol, gweithdai, Mis hanes Pobl Ddu (enghreifftiau)<br>Awgrym: ydych chi'n meddwl bod yr holl blant yn eich dosbarth yn cymryd hynny o ddifri? | |
| **Cwestiwn i'r Grŵp Ffocws:**<br>**Ydych chi'n ymwybodol o sut mae eich ysgol yn rheoli digwyddiadau hiliol, ac os felly, sut?**<br>Awgrym: sut byddech chi'n newid hyn? | |
| **Cwestiwn i'r Grŵp Ffocws:**<br>**Ydych chi wedi tystio i hiliaeth yn yr ysgol, ac ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn dweud wrthyn ni beth ddigwyddodd?**<br>Awgrym: Glywsoch chi rywbeth yn digwydd i rywun arall?<br>Awgrym: Beth am brofiadau ar-lein? | |

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn i'r Grŵp Ffocws:**<br>**Sut mae adrodd am hiliaeth yn edrych yn eich ysgol chi?**<br>Awgrym: Pa gamau sy'n cael eu cyflawni ar ôl digwyddiad? Oes yna unrhyw ganlyniadau neu gamau'n cael eu cymryd? | |
| **Cwestiwn i'r Grŵp Ffocws:**<br>**Beth sy'n stopio Layla rhag adrodd am hyn i'r ysgol?**<br>Awgrym: beth hoffech chi weld o ran trefniadau adrodd yn eich ysgol? | ***Astudiaeth achos:***<br>Mae Layla wedi dechrau gwisgo hijab i'r ysgol, ac mae ei ffrindiau o'r ysgol wedi cael sioc, ac yn gwneud 'jôcs' yn yr ysgol, yn dweud ei bod hi'n edrych yn ddwl. Maen nhw hefyd wedi rhannu lluniau ar-lein, ac mae'r sylwadau ar Instagram yn brifo'n fwy. Dyw Layla ddim wedi dweud wrth neb am y sylwadau yma. |
| **Cwestiwn i'r Grŵp Ffocws:**<br>**Sut gallai ysgolion wella i gefnogi myfyrwyr sy'n profi hiliaeth yn well? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau?** | |
| **Unrhyw Fater Arall**<br>**Beth hoffech chi i'r Comisiynydd Plant wybod am hiliaeth a digwyddiadau hiliol mewn ysgolion uwchradd?**<br>Unrhyw beth arall i'w ychwanegu?<br>Rhoi mewn amlen – annog y plant a'r bobl ifanc i ysgrifennu atebion | Creu 'amlen ddiogel' |
| **Gweithgaredd hunan-ofal**<br>Diolch am fod yn rhan o'r grŵp ffocws heddiw, rydyn ni eisiau eich atgoffa chi am y camau nesaf – bydd aelod o'n tîm yn creu copi wedi'i deipio o'r holl wybodaeth rydyn ni wedi'i chasglu, ac yn ei rhannu gyda gweddill tîm y prosiect. Bydd tîm y prosiect yn defnyddio'r wybodaeth yma i ysgrifennu adroddiad ar Hiliaeth mewn Ysgolion a byddwn ni'n anfon copi atoch chi pan gaiff ei gyhoeddi. Bydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.<br>Mae siarad am hiliaeth yn heriol iawn ac rydyn ni eisiau bod yn siŵr eich bod chi'n gofalu amdanoch eich hun. Rydyn ni wedi creu pecyn gyda rhai gweithgareddau a allai helpu, ond rydyn ni am dynnu eich sylw at y ffaith bod yna bobl gallwch chi siarad â nhw hefyd.<br>Gallwch chi gysylltu â'n tîm Ymchwiliadau a Chyngor. Maen nhw ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener 9-5pm.<br>Rhai mannau eraill yw: Cymorth i Ddioddefwyr, EYST a MEIC. | Dosbarthu gwybodaeth am weithgareddau a gwasanaethau Cefnogi. |

# Ôlnodiadau


1. https://www.gov.wales/final-report-black-asian-and-minority-ethnic-communities-contributions-and-cynefin-new-curriculum
2. https://racealliance.wales/wp-content/uploads/2021/04/Show-Us-You-Care-Full-Report-1.pdf https://eyst.org.uk/assets/experiences-of-racism-and-race-in-schools-in-wales.pdf
3. https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupilsaged5andiover-by-localauthorityregion-ethnicity
4. https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/Briefing_Report_E_2020_FINAL.pdf
5. https://www.childcomwales.org.uk/publications/tackling-islamophobia-resource/
6. https://www.childcomwales.org.uk/our-work/ambitions-for-wales/ambitions-for-wales-findings/
7. https://www.childcomwales.org.uk/our-work/three-year-strategy-2023-26/
8. https://www.gov.wales/anti-racist-wales-action-plan
9. https://gov.wales/black-asian-and-minority-ethnic-education-report-welcomed-minister
10. Mae hyn yn debyg i'r diffiniad o hiliaeth sefydliadol a ddefnyddiwyd yn adroddiad Macpherson, ac wedi'i seilio ar hynny
11. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/277111/4262.pdf
12. https://www.gov.wales/rights-respect-equality-guidance-schools
13. https://www.gov.wales/hate-hurts-wales?gclid=CjwKCAiAxreqBhAxEiwAfGfndGrviLS2x1idM5JDHIePJcKuJVAn3sbDRn4dPL2EVKKAxz7_56zKBoCQxgQAvD_BwE
14. https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-58706142
15. https://www.victimsupport.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/CYP_affected_by_hate_crime_in_Wales_English1.pdf
16. rights-respect-equality-statutory-guidance-for-governing-bodies-of-maintained-schools.pdf; https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/review_of_psed_in_wales_full_report_english_nov2014.pdf
17. https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/introduction
18. https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/black-asian-minority-ethnic-communities-contributions-cynefin-new-curriculum-working-group-final-report.pdf
19. https://darpl.org/
20. https://www.theredcard.org/wp-content/uploads/2023/01/RacisminWales-ExploringracismtheEducationsystemMay2020F.pdf
21. https://www.theredcard.org/wp-content/uploads/2023/01/ShowRacismtheRedCardReportSeptember2016.pdf
22. https://racealliance.wales/wp-content/uploads/2021/04/Show-Us-You-Care-Full-Report-1.pdf
23. https://eyst.org.uk/assets/experiences-of-racism-and-race-in-schools-in-wales.pdf
24. National Data - School Health Research Network (shrn.org.uk)
25. https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2023/07/AmbitionsforWales_FINAL_ENG.pdf
26. We have used the term perpetrator to reflect the language used by many children and schools we spoke to. We recognise however that this can be a loaded and sometimes criminalising term and schools may wish to consider the use of terminology in their policies, particularly if focusing on a restorative justice approach.
27. https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-11/rights-respect-equality-statutory-guidance-for-governing-bodies-of-maintained-schools.pdf
28. https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/anti-racist-wales-action-plan_0.pdf
29. https://darpl.org/
30. https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/black-asian-minority-ethnic-communities-contributions-cynefin-new-curriculum-working-group-final-report.pdf
31. https://www.estyn.gov.wales/thematic-report/school-governors-acting-critical-friends-and-impact-governor-training

www.comisiynyddplant.cymru
T: 01792 765600
E: post@complantcymru.org.uk
Twitter (X): @Childcomwales
Facebook: @childcomwales

Llinell gymorth cyngor rhadffôn:
0808 801 1000

Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales